y dinesydd

www.dinesydd.com

Ebrill 2008 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Rhif 327

Betsan a chyfwelwyr y dyfodol

Fe gymrodd Lydia, Sophie a Jasper, tri o fyfyrwyr Ysgol Howell, ran yn ddiweddar yng Nghystadleuaeth Flynyddol y Rotari ar gyfer Cyfwelwyr Ifanc. Yn y rownd hon, a noddwyd gan Glwb Brecwast Rotari Caerdydd, roedd Ysgol Howell yn wynebu Ysgol Gyfun Yr Eglwys Newydd.

Y sialens oedd cyfweld Sue Essex, cyn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol a thestun y cyfweliad oedd y cynllun i adeiladu morglawdd ar draws aber yr afon Hafren. Un o'r beirniaid oedd Betsan Powys, golygydd gwleidyddol gyda'r BBC. Llwyddodd Lydia a Jasper i gael eu dewis ar gyfer y rownd derfynol. Llongyfarchiadau i'r cystadleuwyr i gyd.

Cwrs rasio ceffylau yn cael cerflun gan Gymraes

Ar nos Iau, 27 Chwefror dadorchuddiodd y gôf neu'r cerflunydd metel Nia Wyn Jones o Landaf ei gwaith comisiwn o geffyl metel dwy fetr o uchder ym Mharc Kempton yn Lloegr. Mae Nia yn ferch i Tegai Jones a'r ddiweddar Gwen Jones a bu'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf cyn mynd yn ei blaen i astudio yng Nghaerdydd a Phrifysgol Wolverhampton. Cynlluniodd ffynnon yn Dubai ac ar ôl blwyddyn yn Llundain yn gweithio i gynllunydd yno dychwelodd i Gaerdydd yn 1997 a sefydlodd ei busnes metel ei hun. Mae peth o'i gwaith i'w weld y tu allan i Eglwys Sant Ioan yng nghanol Caerdydd a hi gynlluniodd y tlysau ar gyfer cystadleuaeth personoliaeth chwaraeon yng Nghymru. Dymunwn pob lwc iddi yn ei gyrfa ddewisiedig.

Adeilad newydd i Pedal Power

Agorwyd adeilad newydd Pedal Power ym Mharc Pontcanna ar 7 Mawrth gan Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd Gill Bird.

Mae Pedal Power yn elusen sy'n darparu cyfleoedd i feicio ar gyfer pob oedran a gallu. Mae ganddyn nhw ystod eang o feiciau - o feiciau mynydd, beiciau i blant i feiciau arbennig iawn sy'n caniatáu i bobl ag anableddau difrifol gymryd rhan mewn gweithgaredd pleserus a chyffrous.

Derbyniodd yr elusen dros £300,000 gan Gronfa Fawr y Loteri ar gyfer yr adeilad, sy'n galluogi iddyn nhw ehangu eu gwasanaeth, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr yn bennaf.

Os oes gennych ddiddordeb mewn beicio, neu'n adnabod rhywun allai fanteisio ar wasanaethau Pedal Power, gallwch gysylltu â nhw ar 029 2039 0713, neu galwch i mewn i'w gweld ym maes carafanau Parc Pontcanna.

Tîm Pêl-droed y Cymric yn teithio i'r Swistir

Mae Tîm Pêl-droed y Cymric, sef tîm pêl-droed Cymry Caerdydd, yn mynd ar daith i'r Swistir ym mis Mai eleni i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth pêl-droed i wledydd Ewrop sydd ag ieithoedd lleiafrifol o fewn ei ffiniau. Paratoad yw'r gystadleuaeth hon ar gyfer cystadleuaeth Pencampwriaeth Ewrop yn yr haf yn y Swistir ac Awstria.

Disgwylir tuag ugain o dimau o ieithoedd lleiafrifol Ewrop i gymryd rhan. Pob lwc i fechgyn Tîm y Cymric yn y gystadleuaeth. Mae'r tîm yn ymarfer bob nos Lun yn Stadiwm Lecwydd ac ar ôl pob gêm byddant yn ymgasglu yn y Mochyn Du am lymaid a sgwrs.

Cennin Pedr Undeb Rygbi Cymru

I ddathlu llwyddiant tîm rygbi Cymru planwyd flodyn unigryw ar faes stadiwm y mileniwm cyn eu gêm fawr yn erbyn Ffrainc. Cyflwynwyd y blodyn newydd, Cenhinen Bedr Undeb Rygbi Cymru, i'r tîm gan yr elusen arddio Cymdeithas Garddwriaethol Frenhinol (RHS).

Mae sawl un enwog wedi cael blodyn wedi'i enwi ar ei ôl ac nawr mae RHS wedi anrhydeddu tîm Cymru – y tîm chwaraeon cyntaf i dderbyn y fath anrhydedd. Bydd y blodyn yn cael ei ddadorchuddio'n swyddogol yn Sioe Wanwyn yr RHS yng Nghaerdydd ar 18-20 Ebrill a bydd cyfle bryd hynny i chi ei brynu.

Am ragor o wybodaeth a thocynnau ffoniwch 0870 040 0286 neu ewch ar y wefan www.rhs.org.uk.

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Ann Evans
Golygydd y rhifyn nesaf:
Cen Williams
Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mai 2008
erbyn 24 Ebrill at:
Cen Williams,
27 Llantrisant Rise, Llandaf,
Caerdydd. CF5 2PG
cenwilliams@aol.com
Ffôn: 02920-575439
neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:
Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk
ffôn: 01446-760007).
MANYLION CYSYLLTU
Calendr y Dinesydd
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk; 029-2062-8754)
Hysbysebion
Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)
Derbyn a dosbarthu copïau
Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)
Rhoddion a thaliadau
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
Noddi rhifynnau ac ymholiadau cyffredinol
Peter Gillard 01446-760007.

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan Penri Williams a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Rydym yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at: Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14 2FG .

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cwmni Dwyieithog y Flwyddyn yn dathlu

Mae gan fenter busnes, sydd wedi ei leoli yn Nhrefforest, nifer o resymau i ddathlu. Sefydlwyd Safle Swyddi, gwefan gyflogi ryngweithiol, i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i ddod o hyd i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Ar Ddydd Gŵyl Dewi fe ddathlodd y cwmni ei ben-blwydd cyntaf a blwyddyn lewyrchus gyda nifer uchel o ymwelwyr i'r wefan. Yn ogystal, derbyniodd Job Trac Cymru, cwmni recriwtio a chwaer gwmni Safle Swyddi wobr urddasol Cwmni Dwyieithog y Flwyddyn yng Ngwobrau Clwb Busnes Rhondda Cynon Taf, a noddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn ôl Tracey Williams, y gyfarwyddwraig reoli a sefydlodd y ddau gwmni ar ôl gweld bwlch yn y farchnad recriwtio, y gyfrinach ar gyfer llwyddo yw'r gallu i baru'r person cywir gyda'r swydd gywir. Dechreuodd Mrs Williams Job Trac Cymru gyda'r bwriad o greu cwmni a fyddai nid yn unig yn recriwtio ond hefyd yn gwirio siaradwyr Cymraeg yn drylwyr ar gyfer busnesau a sectorau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru.

Mae'r cwmni'n gwirio ceisiadau ymgeiswyr yn rheolaidd ar ran 50 o gleientiaid sydd yn cynnwys Maes Awyr Cymru Caerdydd, S4C, Cyngor Gofal Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn chwarae rhan flaengar yn annog siaradwyr Cymraeg ail-iaith i barhau i ddefnyddio'r iaith ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol.

Dwy flynedd a hanner yn dilyn sefydlu Job Trac Cymru, sefydlodd Mrs Williams y cwmni ar-lein, safleswyddi.com. Mae'n wefan gyflogi ar gyfer siaradwyr Cymraeg, sy'n hysbysu ymgeiswyr am swyddi gwag lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ac yn eu galluogi i gysylltu'n uniongyrchol â'r darpar gyflogwr ar eu gwefan. Ers cychwyn y busnes yn Mawrth 2007, mae Safle Swyddi wedi denu dros 80,000 o ymwelwyr unigryw ac mae wedi hysbysebu dros 200 o swyddi gwag, yn amrywio o leoliadau dros dro i swyddi gwag llawn bri ar gyfer pensaer profiadol.

Mae Mrs Williams yn ffyddiog y bydd ei llwyddiant hi yn ysbrydoli mwy o ymgeiswyr a chwmnïau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a thu allan i'r gwaith.

Gwobrwyo Busnes y Flwyddyn

Olive Corner o Genelau Tŷ Gwyn yn derbyn Tlws KTS Owens Thomas gan y Dirprwy Brif Weinidog Ieuan Wyn Jones yng Nghinio Blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd

Olive Corner o Genelau Tŷ Gwyn, busnes teuluol sy'n darparu llety ar gyfer cŵn a chathod, a dderbyniodd wobr arbennig Busnes y Flwyddyn yng Nghinio Blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd ym mis Mawrth.

Cyflwynwyd Tlws KTS Owens Thomas, a gwobr gwerth £1,000, i fusnes neu fenter newydd ifanc a ddatblygwyd gan Gymro neu Gymraes yng nghylch Caerdydd. Tri chwmni ddaeth i'r brig – Canolfannau Pêl-droed Gôl yn Nhreganna, Practis Ffisiotherapi Penarth a Chlinic Anafiadau Chwaraeon, a Cenelau Tŷ Gwyn ym Mhorthcawl.

Dywedodd John Elfed Jones, un o feirniaid y wobr, fod y tri chwmni a ddaeth i'r brig yn esiamplau o gwmnïau blaengar gyda chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac ymrwymiad gwirioneddol at yr iaith Gymraeg.

Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a gyflwynodd y wobr i Olive Corner ac fe siaradodd o flaen dros 120 o Gymru Cymraeg byd busnes Caerdydd a'r Cylch am gynlluniau'r Llywodraeth i ddatblygu'r A470 rhwng y de a'r gogledd. Cynhaliwyd y Cinio Blynyddol yng ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd a'r noddwyr oedd cwmni cyfathrebu StrataMatrix.

Dau darged i'r Tabernacl

Mae gosod targed o £100,000 i gapel yn her, ond mae gosod dau darged o'r un swm yn andros o her! Ond felly mae hi yn Eglwys y Tabernacl, Caerdydd. Mae angen y swm cyntaf er mwyn trwsio organ y capel. Mae'r organ, sy'n dathlu ei chanmlwyddiant eleni, yn rhan anhepgorol o hanes a datblygiad cerddoriaeth grefyddol yng Nghaerdydd. Bydd nifer yn y Ddinas yn gyfarwydd â sain yr organ, ac acwsteg gwych y capel ar gyfer canu cynulleidfaol, ond bellach mae'r hen organ yn diffygio weithiau, a'r unig ateb yw ei hadnewyddu'n llwyr.

Prin yw'r rhai, bellach o gwmpas Caerdydd , sy'n cofio'r canu cynulleidfaol i gyfeiliant yr organ adeg yr Ail Ryfel Byd, a'r capel dan ei sang dan arweiniad y diweddar Teddy Richards, ond bydd mwy yn cofio perfformio gweithiau gan y cyfansoddwr Arwel Hughes yn y 50au a'r 60au, yn aml dan arweiniad crwt ifanc a ddaeth wedyn yn enwog fel arweinydd yn fyd-eang, sef ei fab Owain Arwel Hughes.

Oherwydd ansawdd sain yr organ, a lleoliad canolog y capel, mae'r Tabernacl yn cael ei ddefnyddio yn gyson gan nifer helaeth o gorau. Yma y sefydlwyd côr CF1, a'r enw CF1 ei hun yn deillio o'r ffaith mai hwnnw yw côd post y capel. Mae Cymdeithas Gorawl y Tabernacl yn perfformio'n rheolaidd yn y capel, ac mae gan gorau eraill eu cartref yma, gan gynnwys côr cymysg Cantemus a Chôr Meibion Caerdydd. Mae gan yr eglwys chwe organydd dawnus ac mae nifer arwyddocaol o bobl ifainc yn dysgu, neu wedi dysgu, ar yr offeryn hwn. Felly, mae'n anghenrheidiol i godi'r cyllid i dalu am adnewyddu'r organ.

Serch hynny, mae'r Tabernacl, sy'n dra ymwybodol o'i gyfrifoldeb cymdeithasol ac elusennol, hefyd wedi gosod targed o godi £100,000 ar gyfer pwrpasau dyngarol. Ar hyn o bryd, mae ffocws y codi arian yn parhau ar glinig yn Maseru, Lesotho. Yn y fan honno, darparwyd y cyllid i godi'r adeilad eisoes, a darparwyd offer ac adnoddau ar ei gyfer, fel canlyniad i gyfraniadau o dros £30,000 gan y Tabernacl a chyfranwyr eraill ar draws Caerdydd a gweddill Cymru. Gwenallt Rees, diacon yn y Tabernacl (sydd yn is-lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru eleni) a'i wraig weithgar Non a arweiniodd yr ymgyrch i sefydlu'r clinig. Dywedodd yntau, 'Rydym wedi derbyn cyfraniadau o bob rhan o Gymru ar gyfer y clinig hwn sy'n rhedeg dan arweiniad Me Caselin, dynes ryfeddol a hynod grefyddol, ac sydd wedi rhoi ei thŷ ei hunan fel cyfraniad i'r fenter. Mae'r clinig yn allweddol yn y frwydr yn erbyn salwch, ac yn arbennig yn erbyn AIDS yng ngwlad dlawd Lesotho. Er bod y clinig eisoes yn weithredol, mae angen i'r Tabernacl barhau i ariannu costau ei gynnal.'

Mae cyfres o ddigwyddiadau cerddorol wedi eu trefnu eisoes ar gyfer codi arian i'r ddau achos.

Bydd y gwaith ar yr organ yn dechrau o fewn yr wythnosau nesaf. Bydd y gwaith yn cael ei ariannu yn y lle cyntaf gan aelodau'r Tabernacl ei hun, sydd eisoes wedi codi neu addunedu dros £10,000, ynghyd â benthyciad sylweddol gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Bydd rhaid ad-dalu'r benthyciad yma dros y blynyddoedd nesaf drwy'r apêl codi arian.

Dylai unrhyw un sydd am gyfrannu naill ai i Gronfa Organ y Tabernacl, neu i'r clinig yn Maseru, gysylltu ag Illtyd Lloyd, Trysorydd yr Eglwys, 134 Lake Road East, Parc y Rhath, Caerdydd CF23 5NQ, neu 02920755296 neu illtyd@tiscali.co.uk gan nodi i ba gronfa y dylai'r cyfraniad fynd.

Datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg Caerdydd

Mae'r nifer o rieni sy'n dewis addysg gynradd Gymraeg i'w plant ym mis Medi eleni yn dangos bod y galw yn parhau i dyfu ar raddfa flynyddol o naw i ddeg y cant. Mae tua 560 cais am le ym mis Medi o'i gymharu â'r 512 eleni, a chyda 600 lle ar gael ar draws y sir mae lle i bawb - yn rhywle. Ond yn anffodus nid yw'r lleoliad yn cyfateb i'r galw.

Mae'r galw'n uwch na'r lleoedd sydd ar gael yn ysgolion megis Melin Gruffydd lle mae 65 plentyn yn ceisio am 55 lle ac mae gwasgfa hefyd yn Ysgol Pencae. Er bod Mynydd Bychan yn gallu derbyn pob plentyn eleni mae'r ceisiadau ar gyfer y dosbarth meithrin yn awgrymu y bydd problem yn 2009. Mae'r sir yn derbyn felly bod rhaid agor dosbarth cychwynnol eleni i arwain at ysgol arall (rhif 17) yn y dyfodol agos.

Yn ôl Chris Jones, y Prif Swyddog Ysgolion mae'r sir yn awyddus i gael lle sbâr mewn ysgolion ar draws y ddinas yn hytrach nag ymateb i argyfwng yn unig. Mae'n edrych yn barod i sefydlu dwy neu dair ysgol arall (rhifau 18-20). Mae'n derbyn hefyd nad yw'r twf presennol yn debyg o leihau sy'n golygu y bydd angen agor y bedwaredd ysgol uwchradd yn fuan ar sodlau agor y drydedd.

Mae'r adroddiad ar ddiwygio'r ysgolion uwchradd Cymraeg wedi'i baratoi ond yn annhebyg o arwain at newid yng nghynlluniau'r sir. Mae RhAG yn pwyso ar y sir i symud ar y cynlluniau i ymestyn Glantaf a Phlasmawr i'w galluogi i dderbyn y plant ychwanegol ar ôl 2009.

Mae'r ymgynghori ar y cynlluniau i sefydlu safleoedd parhaol ar gyfer y pedair ysgol Gymraeg newydd wedi dechrau ac mae'r broses wedi dod i ben yn Nhreganna. Y cynnig yw cau Ysgol Lansdowne gan mai hi yw'r ysgol â'r lefel uchaf o leoedd gwag a sydd hefyd yn cadw'r canran lleiaf o blant ei thalgylch. Mae rhai rhieni yn bwriadu cadw eu plant yn Lansdowne hyd yn oed os bydd yr ysgol yn cau, gan dderbyn yr angen i newid iaith eu haddysg. Byddai hynny'n golygu creu dosbarth cymhathu - cam hollol newydd a chwyldroadol yng Nghaerdydd, ond sydd eisoes yn digwydd yn Sir y Fflint. Mae'r sir yn ystyried eu hymateb i hyn.

PASPORT

Merch o'r canolbarth yn wreiddiol – Meleri Wyn
- sy'n cael ei holi'r mis yma...

O ble rwyt ti'n dod yn wreiddiol?
Llandre ger Aberystwyth.

Ym mha ran o Gaerdydd rwyt ti'n byw?
Yn y Rhath.

Ers faint rwyt ti'n byw yng Nghaerdydd?
Ers tua 13 mlynedd.

Beth fuest ti'n ei wneud cyn/ar ôl symud yma?
Symudais i lawr i Gaerdydd yn 1995 i astudio Cymraeg a Ffrangeg yn y Brifysgol. Fe wnes i fwynhau fy amser yn y coleg mas draw – y bywyd cymdeithasol a'r cwrs!

Ces i'r cyfle i fyw yn Llydaw am naw mis yn ystod y drydedd flwyddyn, yn dysgu Saesneg mewn ysgol uwchradd yn Saint Brieuc. Dim ond deuddeg awr yr wythnos oedd yn rhaid i ni weithio felly roedden ni'n defnyddio ein hamser sbâr i deithio o amgylch Llydaw a gogledd Ffrainc.

Ces i swydd gyda Trosol yn syth ar ôl gadael y coleg yn gweithio fel is-deitlydd yn y BBC a bues i'n gweithio yno am tua dwy flynedd a hanner.

Ble rwyt ti'n gweithio erbyn hyn?
Dw i bellach yn Gydlynydd Is-deitlo yn S4C ac wedi bod yma ers tua chwe mlynedd. Dw i'n edrych ar ôl y gwasanaeth isdeitlo, arwyddo ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw, a'r gwasanaeth sain ddisgrifio ar gyfer y dall a'r rhannol ddall. Dw i'n mwynhau'r swydd ac mae yna griw da yn gweithio yn y swyddfa gyda fi.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?
Dw i'n mwynhau treulio amser gyda fy ffrindiau ac fy nghariad, yn y dafarn, mynd allan am fwyd neu mynd i'r sinema. Mae gen i ddiddordeb mewn cerddoriaeth a dw i'n joio mynd i gigs a chyngherddau. Fe fues i'n Llundain ddechrau mis Ionawr i weld y Spice Girls. Fe wnes i fwynhau'r noson mas draw gan i'r gyngerdd ddod â lot o atgofion da yn ôl i mi! Fydda i ddim yn gwylio'r teledu cymaint â hynny ond fydda i byth yn colli 'Torchwood' na 'Rownd a Rownd'. Dw i'n aelod o'r gampfa hefyd ond dw i ddim yn mynd mor aml ag y dyliwn i!

Beth sy'n gwneud i ti chwerthin?
Mae PC Leslie Wynne bob amser yn gwneud i mi chwerthin. Roeddwn i'n rhan o'r gynulleidfa pan oedd ei gyfres newydd yn cael ei ffilmio yn y Senedd yn ddiweddar. Mae nifer o fy ffrindiau yn gallu gwneud i mi chwerthin hefyd a dw i'n meddwl bod Russell Brand ac Alan Carr yn ddoniol iawn.

Ble ydy'r mannau gorau i fynd allan yng Nghaerdydd?
Fe wnaethon ni ddechrau Clwb Cyri yn y swyddfa tua blwyddyn a hanner yn ôl ac ryn ni'n mynd allan am fwyd unwaith y mis. Mae'n gyfle grêt i ymweld â gwahanol fwytai yng Nghaerdydd, yn enwedig gan nad ydyn ni'n mynd am gyri bob tro! Cafon ni fwyd ffantastig yn Juboraj mis diwethaf.

Pan dw i'n mynd allan i yfed, ryn ni fel arfer yn aros yn lleol, naill ai yn mynd i'r George neu Milgi yn y Rhath, neu'r Mochyn Du ym Mhontcanna. Mae Milgi yn gwneud y coctêls gorau yn y ddinas felly dw i'n mynd yno pan dw i yn teimlo fel sbwylio'n hunan! Ryn ni'n mynd i'r Bae yn weddol aml hefyd – mae 'na nifer o fariau neis yno.

Ble ti'n hoffi mynd am wyliau?
Dw i wrth fy modd yn mynd ar wyliau ac yn mynd i ffwrdd mor aml â phosibl. Dw i'n mwynhau pob math o wyliau - ymweld â dinasoedd, gwyliau yn yr haul a gwyliau sgïo. Aethon ni o gwmpas Sbaen tua blwyddyn a hanner yn ôl, gan orffen yn Tarifa reit ar waelod y wlad. Dyna fy hoff le yn y byd – traethau a bariau gwych ac mae'r lle yn llawn hippies a kite surfers! Y gwyliau diwethaf i mi fynd arno oedd wythnos yn yr haul yn Mecsico. Hoffwn i fynd i Cuba neu Brasil cyn hir.

Petaet yn cael y cyfle i wella neu newid rhywbeth yng Nghaerdydd, beth fyddet ti'n ei wneud?
Hoffwn i petai Cyngor Caerdydd yn stopio anfon eu lorïau casglu sbwriel o gwmpas am hanner awr wedi wyth y bore pan mae pawb arall yn trio cyrraedd y gwaith ar amser! Mae'n fy ngwylltio i pan dw i'n cael fy nal tu ôl i lori sbwriel sy'n stopio tu fas i bob tŷ pan dw i'n rhedeg yn hwyr!

Ble rwyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?
Dw i ddim yn gallu gweld fy hun yn symud o Gaerdydd o fewn y deng mlynedd nesaf. Gobeithio y bydd gen i deulu erbyn hynny ac y bydda i'n dal i joio bywyd yng Nghaerdydd.

Hwyl a hanes i blant bob dydd Mawrth

Efallai bod hi'n Ddydd Ffŵl Ebrill ond nid jôc yw prosiect addysg newydd ddechreuodd yng Nghastell Coch ar 1af o Ebrill! Fel rhan o ymrwymiad gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad, Cadw, i ddysgu gydol oes, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2, plant a grwpiau ysgol yn gallu ymweld â'r castell tylwyth teg ar gyrion Caerdydd ar foreau Mawrth rhwng 1 Ebrill ac 18 Tachwedd.

Mae'r ymweliadau rhyngweithiol yn darparu cyfle ar gyfer gwaith llafaredd a llythrennedd, yn ogystal â chynnig elfennau o wyddoniaeth, hanes a chelf, ac i helpu dysgu plant am hunaniaeth Gymreig fel rhan o'r Cwricwlwm Cymreig.

Fel rhan o'u hymweliad, bydd y plant yn treulio amser gyda'r marchog dewr Syr Andrew, ac yn dysgu am hyfforddiant fel marchogion a sut i drin y cleddyf. Gyda golygfeydd o Chwedlau Aesop ar waliau ystafell groeso wyth ochrog y castell, bydd gan ddisgyblion y cyfle i astudio'r straeon enwog yn fwy manwl drwy gerddi a chaneuon gwreiddiol. Mae croeso i grwpiau archwilio gweddill y castell Fictoraidd a'r goedwig gyfagos yn dilyn eu sesiwn addysg yn y castell.

Dywedodd Adrienne Goodenough, Rheolwr Datblygiad Dysgu Cadw, " Mae Castell Coch yn gastell wych sydd wedi ei addurno yn rhyfeddol ac mae'n le perffaith i blant ysgol ddod i fwynhau ystod eang o weithgareddau tra hefyd yn dysgu am ychydig o dreftadaeth adeiledig gorau Cymru fel rhan o'u hymweliad."

Dylai ysgolion archebu tocynnau yn uniongyrchol drwy gysylltu â Chastell Coch ar 02920 810101.

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Cynlluniau Gofal y Sulgwyn
Fe fydd tri Cynllun Gofal yn rhedeg yn ystod gwyliau'r Sulgwyn yn Ysgol Treganna, Ysgol y Berllan Deg ac Ysgol Melin Gruffydd. Am fanylion pellach am gost a dyddiadau, cysylltwch â Gwyneth Thomas ar gwyneth@mentercaerdydd.org

Cyrsiau ymwybyddiaeth iaith
Dros y misoedd diwethaf, mae Heledd Wyn, Swyddog Treftadaeth Menter Caerdydd wedi ymweld â dros 1750 o ddisgyblion Blwyddyn 9 gan gynnal 27 o weithdai ymwybyddiaeth iaith mewn saith ysgol uwchradd di-Gymraeg yng Nghaerdydd. Pwrpas y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith drwy annog pobl ifanc i werthfawrogi'u treftadaeth. Bu'r gweithdai'n llwyddiant a'r ymateb gan blant a staff yr ysgolion yn ffafriol iawn.

Cwrs Cymraeg 'Welsh for Parents'
Daeth y cwrs 'Welsh for Parents' i ben cyn gwyliau'r Pasg, a bu'r ymateb gan y rhieni yn wych. Roedd y cyrsiau yn llawn gyda dros 60 o rieni wedi cofrestru arnyn nhw. Yn ystod y tymor, yn ogystal â gwersi iaith, cafwyd ymweliadau gan staff o S4C, BBC, Yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin a Chanolfan Cymraeg i Oedolion i hyrwyddo gweithgareddau a diwylliant Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Rydym yn bwriadu cydweithio gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd i ddatblygu cwrs tebyg eto'r flwyddyn nesaf.

Technoleg gwybodaeth i Gymru gyfan!
offer cyfrifiadurol | meddalwedd | rhwydweithio | e-bost | gwefannau

CYNNIG ARBENNIG: Laptop Acer Extensa
Sgrîn 15.4", cof 1GB, disg galed 80GB, DVDRW, Wi-Fi, Windows Vista, meddalwedd Office a gwrth feirws - bargen am £350 (RRP £425)

Ydych chi eisiau prynu cyfrifiadur ond ar goll efo'r holl gynigion a'r derminoleg?

Prynwch yn hyderus gan W&G - offer a meddalwedd yr ydym ni yn hapus i'w defnyddio a'u hargymell.

Mae Williams & Gwilym yn darparu offer cyfrifiadurol a chefnogaeth i unigolion a Chwmnïau dros Gymru gyfan.

Oes gennych chi gyfrifiadur efo problemau?

Dydi pellter ddim yn broblem, gallwn ddatrys problemau dros y ffôn a'r we. A hynny yn Gymraeg.

Cofiwch sôn eich bod wedi gweld yr hysbyseb yma yn y Dinesydd am ddisgownt pellach!

Cysylltwch â Dilwyn am gyngor neu gwôt:

t: 02921 252299
m: 07976 254446
E: dilwyn@williamsgwilym.com

WILLIAMS&GWILYM

Rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 Ysgol Radur ar un o gyrsiau ymwybyddiaeth iaith y Fenter

Cwis Cymraeg
Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, 27 Ebrill yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person.

Taith 'Y Gobaith a'r Angor'

Gosodir drama nesaf Bara Caws mewn tafarn mewn tref fach ddi-nod yn y gogledd. Yn 'Y Gobaith a'r Angor' mae Dylan Rees, sy'n ysgrifennu i'r cwmni am y tro cyntaf, yn cyflwyno criw o gymeriadau trist a ffraegar sy'n rhygnu bod o ddydd i ddydd o dan gysgod anobaith a phwysau beunyddiol byw mewn byd sy'n gwegian. Mae'r ddeialog yn fyw ac yn llawn hiwmor tywyll ac mae'n addo bod yn noson gofiadwy yng nghwmni Gwenno Elis Hodgkins, Dyfrig Wyn Evans, John Glyn Owen, Huw Llŷr a Gwyn Vaughan gyda Maldwyn John yn cyfarwyddo.

Bydd y cwmni yn perfformio yn Neuadd Llanofer, Caerdydd nos Sadwrn, 12 Ebrill . I gael tocynnau ffoniwch: 02920 631144 neu Bara Caws: 01286 676335.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Wendy a Hugo Burke ar enedigaeth Hannah Mair ar 5 Mawrth. Chwaer fach i William ac wyres i Cedric a Brenda Jones, Radur a Dr Gerry a Pat Burke, Limerick.

Llongyfrchiadau i Rhodri a Lucy Owen, Llangan ger Y Bont-faen ar enedigaeth Gabriel, eu cyntafanedig, ar 10 Mawrth.

Dylan Jones

Gwasanaeth adeiladu a dylunio gerddi.

Ffon gartref : 20512567

Symudol : 07890134514

Ysgol Pen-y-Garth

Eisteddfota
Cafwyd 'eisteddfota' brwd drwy gydol yr hanner tymor. Diolch i Mrs Llinos Swain a Mrs Rhiannon Gregory am fod yn feirniaid yn yr eisteddfod ysgol a llongyfarchiadau i Ffion Davies ar ennill y gadair eleni.

Cafodd yr ysgol lwyddiant yn Eisteddfod Sir Yr Urdd. Bydd Aled Misra, Hana Evans a Jodi Bird yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Sir Conwy ym mis Mai. Llongyfarchiadau i chi.

Planed Plant
Bu wyth o blant Blwyddyn 5 yn cymryd rhan yn rhaglen Siôn a Siân yn ddiweddar. Nod y gêm oedd cael gweld pa mor dda oedd y plant yn adnabod eu ffrindiau. Cafodd gweddill Blwyddyn 5 a 6 gyfle i fod yn rhan o'r gynulleidfa a chawsm lawer o hwyl!

Diwrnod mathemateg
Bu nifer o blant yr adran babanod a'r adran iau yn cymryd rhan yn yr her i guro record y byd am y nifer mwyaf o bobl i ateb cwestiwn mathemateg! Mwynheuodd y plant gystadlu yn erbyn disgyblion o bedwar ban byd.

Pythefnos Masnach Deg
Cynhaliwyd Pythefnos Masnach Deg o 25 Chwefror i 9 Mawrth ac roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu am yr achos pwysig hwn. Roedd gwahanol weithgareddau i'w gweld yn y dosbarthiadau ac uchafbwynt y bythefnos oedd ein bore coffi Masnach Deg.

Ffarwel
Ffarweliwn â Mrs Llinos Misra, Cynorthwyydd Dosbarth Blwyddyn 1 a'r Adran Iau a dymunwn pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd yn Techniquest. Diolch am ei gwaith diflino yn ystod y blynyddoedd.

Cysylltiadau busnes
Bu plant y dosbarth derbyn wrthi'n ddyfal am bythefnos yn creu ac addurno wŷ enfawr i'w roi yng nghyntedd Gwesty'r Park Inn yng nghanol Caerdydd. Roedd yr wŷ yn ddigon o sioe ond yn anffodus wedi ei wneud o bapur yn hytrach na siocled!

Fe dderbynion ni rodd oddi wrth Park Inn o ddwy noson yn y gwesty ar gyfer ein harwerthiant yn ystod y disgo Pasg. Diolch yn fawr iddynt am eu cyfranid hael.

Ysgol Pencae

Hybu Cig Cymru
Aeth disgyblion Blynyddoedd 4 a 5 i Ganolfan yr Urdd i lansiad llyfryn coginio newydd i blant o'r enw 'Cŵl i Goginio'. Mae'r ryseitiau'n defnyddio Cig Oen a Chig Eidion o Gymru. Cafodd y plant eu cyfweld ar y rhaglen Ffeil am eu profiadau coginio nhw.

Cerddorfa BBC Cymru
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 i Eglwys Gadeiriol Llandaf i wrando ar gerddorfa Genedlaethol BBC yn perfformio. Cafodd y disgyblion y cyfle i holi Grant Llywelyn, yr arweinydd, am ei swydd ac am gyfansoddiadau cyfansoddwyr enwog.

Ymweliad Ysgol Plasmawr
Daeth disgyblion Ysgol Plasmawr i'r ysgol i hyrwyddo'r cynllun Cynghorwyr Cam Cyntaf. Mae'r cynllun hwn yn cynorthwyo pob disgybl i fod yn ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn rhan bwysig o bolisi gwrth fwlio'r ysgol. Rydyn ni nawr am ddatblygu cynllun tebyg yn Ysgol Pencae.

Yr wy Pasg enfawr

Gwobr Gyrfa Cymru
Llwyddodd yr ysgol i ennill gwobr Partneriaeth Addysg Busnes am ddatblygu athrawon yn broffesiynol gan ddefnyddio busnesau a diwydiannau yn y gymuned. Derbyniodd Mr Richard Thomas y wobr mewn seremoni yng Ngwesty'r Hilton yn ddiweddar.

Newyddion

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Edgar Davies, Rhiwbeina ar ddathlu ei ddeg a phedwar ugain yn ddiweddar a llongyfarchiadau i'w ferch 'Mac' Hughes ar ddod yn famgu i efeilliaid ac i Edgar ar ddod yn hen dadcu.

Cipiodd Ieuan Wyn o'r Eglwys Newydd y drydedd wobr yng nghystadleuaeth Cân i Gymru eleni. Enw'r gân oedd Gwenllian Haf, ac fe'i canwyd gan Gruff Rees. Cyfansoddodd Ieuan, sy'n astudio cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor, y gân i'w chwaer ar ei phen-blwydd yn 18 y llynedd.

Newid byd
Erbyn hyn mae Guto Harri, gynt o'r Eglwys Newydd, wedi gadael ei swydd fel Gohebydd Gwleidyddol y BBC yn Llundain ac wedi ymuno â chwmni byd-eang Fleishman–Hillard fel Uwch Gynghorydd Polisi ar faterion gwleidyddol. Llongyfarchiadau iddo a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Mel a Delyth Dunsford o Riwbeina sydd wedi dychwelyd i'r wlad i fyw ym Mhontiets yn Sir Gaerfyrddin. Cyn ei hymddeoliad cynnar bu Delyth yn athrawes yn Ysgol y Wern Llanisien.

Ysgol Iolo Morganwg

"Hwyl iddynt oll wrth lwyddo"

Unwaith eto mae'r ysgol wedi derbyn llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Mae'r côr, y partïon unsain a deulais a Nia Brown o Flwyddyn 4 (unawd) yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Sir Conwy ym mis Mai. Pob hwyl iddynt ar y cystadlu! Llwyddodd Lois Aled, Lowri Evans, Aled Evans, Charlie Pegrum, Mia Pegrum ac Anwen Fardy hefyd yn y cystadlaethau Celf a Chrefft. Da iawn chi!

Cafodd pob disgybl y cyfle i wisgo fel cymeriad o lyfr ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni. Braf oedd gweld cymaint o fwrlwm, lliw a chymeriadau difyr yn mwynhau darllen yn ystod y dydd. Gwobrwywyd y disgyblion â thocynnau llyfrau am eu hymdrechion.

Cafwyd wythnos o weithgareddau awyr agored i blant Blwyddyn 6 yn ystod mis Mawrth. Trefnodd Alun Roberts, ein harweinydd addysg gorfforol, lu o weithgareddau yng Ngholeg yr Iwerydd. Bu'r plant yn datrys problemau cyfeiriannu, saethyddiaeth a dringo wrth ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chyd-weithio fel tîm.

Llongyfarchiadau gwresog i Nia Brown o Flwyddyn 4 sydd wedi cael ei dewis i chwarae rhan Jemima yn 'Chitty, Chitty Bang Bang' yng Nghanolfan y Mileniwm dros yr haf. Ar ôl aros am dair awr gyda thros tair mil o ymgeiswyr llwyddodd Nia i fachu un o brif rannau'r sioe. Pob lwc i ti Nia.

Llongyfarchiadau i Lowri Evans o Flwyddyn 3. Mae cyfres o ffotograffau o'r Bont-faen gan Lowri wedi cael eu dewis i addurno'r palisau ym Mae Caerdydd.

Darlith Goffa Islwyn

Dan nawdd Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd cynhaliwyd darlith gan yr Athro J Gwynfor Jones ar 18 Mawrth ar y testun 'Hil Ifor', sef hanes teulu'r Morganiaid o Dedegyr. Daeth llond stafell i wrando ar y ddarlith hynod ddiddorol hon.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi

Bu Blwyddyn 7 yn dathlu diwrnod ein nawddsant drwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a drefnwyd gan eu Pennaeth Blwyddyn, Mr Rhys Beynon. Roedd Luke Kerslake o Flwyddyn 7 wrth ei fodd â'r dathliadau:

"Yn y bore buom yn dawnsio gwerin a chymryd rhan mewn ras i fwyta cennin a phicau bach … roedd yn lot fawr o sbort!"

Ychwanegodd Lori Coughlin: "Fe fwynheais i ganu'r anthem genedlaethol a ffurfio baner Cymru o liwiau ein gwisg gan ein bod oll mewn gwyn, gwyrdd neu goch. Roedd yn Fawrth y cyntaf i'w gofio!"

Eisteddfod

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol eleni yn y Neuadd Goffa yn Y Barri ac roedd yr adeilad o dan ei sang o ddisgyblion o'r tri llys yn cystadlu ar amrywiaeth o gystadlaethau. Llys Cadog ddaeth i'r brig. Roedd y corau wedi codi'r to ar ddiwedd y pnawn a phawb yn grug yn gadael! Tair aelod o'r llys buddugol gipiodd wobrau cystadleuaeth y Gadair hefyd, gydag Elin Jones yn fuddugol, Elen Ifan yn ail a Branwen Dafydd yn drydedd.

Cynhadledd fideo Diwrnod y Llyfr

Ar ddiwrnod y llyfr eleni, trefnwyd cynhadledd fideo gyda'r awdur plant, Paul Manship, ac ysgolion ledled Cymru. Cawsom gyfle i holi'r awdur am ei lyfrau a chlywed am hanes ei ddau lyfr diweddar 'The Cube' a 'Rewind'. Fe wnaeth pawb fwynhau'r sesiwn yn fawr iawn ac roedd hi'n ddiddorol bod yn rhan o fideo gynhadledd. Roedd y dechnoleg yn ei gwneud hi ymddangos fel bod yr awdur a'r holl ddisgyblion eraill o Gymru yn yr un ystafell â ni: roedd e'n anhygoel!

Rhian Roberts (Blwyddyn 8)

Llwyddiant pêlfasged

Llongyfarchiadau i dîm o dan 13 a'r tîm o dan 14 ar gyrraedd rownd derfynol Caerdydd a'r Fro a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngerddi Soffia. Bu'r tîm iau yn chwarae yn erbyn y Bontfaen gan ennill o 20 – 18, tra colli fu hanes y tîm hŷn o 21-25 yn erbyn Ysgol Uwchradd Fitzalan.

Llwyddiant gymnasteg

Llongyfarchiadau i Elinor Lewis, Finlay Haswell a Sophie Grisdale ar fod yn aelodau o dîm Gymnasteg Caerdydd a'r Fro a wnaeth ennill Pencampwriaeth Cymru yng Ngerddi Soffia yn ddiweddar. Daeth Elinor yn bencampwraig llofnaid a llawr dan 19 Cymru. Bydd hi nawr yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain.

Deg awdur a deng mil o bunnoedd

Cyhoeddwyd Rhestr Hir Llyfr y Flwyddyn 2008 nos Fercher 12 Mawrth 2008 fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Roedd y beirniaid, Siân Thomas, Huw Meirion Edwards ac Aled Islwyn wedi dewis casgliad diddorol o gyfrolau ar y Rhestr Hir eleni, gyda'r hen a'r ifanc, y newydd-ddyfodiaid a'r mwy profiadol yn mynnu'u lle.

Rhestr Hir Llyfr y Flwyddyn 2008

Tony Bianchi, *Pryfeta* (Y Lolfa)
Gwyn Jenkins, *Prif Weinidog Answyddogol Cymru* (Y Lolfa)
Ceri Wyn Jones, *Dauwynebog* (Gomer)
Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Gwasg Prifysgol Cymru)
Caryl Lewis, *Y Gemydd* (Y Lolfa)
Alan Llwyd, *Blynyddoedd y Locustiaid* (Cyhoeddiadau Barddas)
Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Gwasg Taf)
Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Gwasg Carreg Gwalch)
Elin Llwyd Morgan, *Mae Llygaid gan y Lleuad* (Y Lolfa)
Llwyd Owen, *Yr Ergyd Olaf* (Y Lolfa)

Newyddion o'r Eglwysi

Eglwys y Crwys

Y Gymdeithas Ddrama
Roedd oedfa'r hwyr ar Sul y Blodau yng ngofal aelodau'r Gymdeithas Ddrama a chafwyd gwasanaeth gwerthfawr ganddynt. Addasiad o waith y diweddar Parchedig Gareth Maelor Jones oedd y sgript ac fe'i cynhyrchwyd gan Bob Roberts.

Y Gymdeithas
Dathlwyd gŵyl ein nawddsant gyda chinio hwyr yng nghlwb golff Radur. Roedd trefniadau'r noson yng ngofal Glenys Thomas, Sian Couch ac Arthur Evans. Ein gwesteion eleni oedd Gwyneth ac Edward Morus Jones a chawsom noson ddifyr yn eu cwmni. Fe'n diddanwyd wrth y delyn gan Elin Rowlands.

Y Grŵp Merched
Cafodd y Grŵp Merched noson werthfawr yng nghwmni'r Parchedig Gareth Reynolds ar 17 Mawrth. Traddodiadau a defodau yn ymwneud ac yn arwain at yr Wythnos Fawr oedd thema ei anerchiad. Cafwyd darlleniadau o'r ysgrythur gan aelodau o'r Grŵp a gair o ddiolch gan Ros Williams.

Y Gorlan
Prynhawn Dydd Mercher, 5 Mawrth ein siaradwraig wadd oedd Gwen Holt, gwraig a dreuliodd ei hoes yn gweini cysur mewn ysbytai lawer ar draws y wlad. Yn y sgwrs arbennig hon canolbwyntiodd ar ei phrofiad ar gychwyn ei gyrfa mewn ysbyty afiechydon plant yn Lerpwl yng nghanol tlodi affwysol. Sgwrs gofiadwy oedd yn agoriad llygaid ar lawer ystyr.

Pythefnos yn ddiweddarach daeth Glenys Thomas atom i rannu ei phrofiadau, trwy, gyfrwng sleidiau a cherddoriaeth, o'i theithiau i Oberammagau. Soniodd am y trefnu a'r paratoi sydd ei angen i lwyfannu pasiant mor fawr yn ogystal â'r cefndir hanesyddol tu ôl i'r traddodiad hwn. Diolch Glenys am roi rhagflas i ni o'r cyflwyniad sydd i'w gynnal yn 2010.

Aelodau newydd
Yn ystod mis Mawrth croesawyd tri aelod newydd i'n plith, sef y Parch Lona Roberts, ei gŵr Huw a'u merch Mared. Croeso cynnes i'r tri.

Ebeneser, Heol Siarl

Dathlu Gŵyl Ddewi
Daeth cynulleidfa dda i wasanaeth bore Sul, 2 Mawrth i ddathlu dydd ein nawddsant yng nghwmni môr o goch, gan fod y plant wedi'u gwisgo mewn gwisgoedd traddodiadol a chrysau rygbi. Drwy ddarlleniadau, emynau a gweddïau a hanesion am Dewi Sant a Chantre'r Gwaelod cawsom ddathlu ein hiaith a'n cyfoeth o ddiwylliant. Yn dilyn yr oedfa aeth criw ohonom am ginio 'traddodiadol' yn *Bella Italia* ar y Stryd Fawr a chawsom llawer o hwyl.

Yna ar 11 Mawrth cynhaliadd Y Gymdeithas swper Gŵyl Ddewi a sgwrs yng nghwmni John Bevan, Aberteifi. Cafwyd noson hwyliog a bwyd blasus wedi'i baratoi gan gwmni Elgano. Diolch i rai o wragedd yr eglwys am weini, ac i Megan Williams a Malcolm Thomas am drefnu'r noson. Bydd tymor y Gymdeithas yn cau ar 15 Ebrill gyda sgwrs gan Aled Glyn a'r teulu ar T Glyn Davies.

Chwiorydd y Byd
'Daw doethineb Duw â dealltwriaeth newydd', oedd testun oedfa Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd a baratowyd gan Wragedd Cristnogol Guyana. Cynhaliwyd yr oedfa eleni yn Ebeneser ar 7 Mawrth gyda chwiorydd yr eglwysi Cymraeg yn cymryd rhan. Llywyddwyd gan Eira Jones, anerchwyd gan Beti Wyn Davies a llwyfanwyd dramodig yn seiliedig ar bennod gyntaf Llyfr Job gan Chwiorydd Ebeneser o dan arweiniad Freda Evans. Yr organydd oedd Cedric Jones.

Cyrddau pregethu
Y Parch Gareth Morgan Jones, Tabernacl, Pontardawe oedd ein pregethwr gwadd eleni yn y cyrddau pregethu ar 9 Mawrth. Yn y bore cymerodd ei destun o ddameg y Codau Arian yn Efengyl Mathew. Cawsom ein cymharu i'r trydydd gwas yn y ddameg. Llyfr Hosea a hanes Dyffryn Achor oedd y testun gyda'r nos - dyffryn yr helynt drodd yn ddrws gobaith i'r bobl. Cawsom ein herio yn ein ffydd yn y ddwy bregeth. Diolch am ei neges glir a grymus.

Stondin masnach deg
Dros gyfnod pyfethnos masnach deg, bu'r ieuenctid yn cynnal stondin nwyddau masnach deg yng nghyntedd y capel. Llwyddwyd i godi dros £150. Diolch i Rachel Jones am drefnu.

Tabernacl, Yr Ais

Bore coffi
Diolch i Julia ac Illtyd Lloyd am eu croeso ar eu haelwyd yn ystod mis Chwefror. Roedd y gymdeithas mor gynnes ag erioed. Yna ar 12 Mawrth cawsom ymweld â chartref Huw a Siân Thomas – diolch iddyn nhw hefyd.

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i Andrew a Frances Davies ar enedigaeth eu mab Gruffydd Ifan, sy'n ŵyr i Richard a Jean Davies.
Nodwyd yn y rhifyn Mawrth o'r 'Dinesydd' enedigaeth mab Amanda a Huw Thomas, sef ŵyr cyntaf Graham a Mary Thomas. Bellach gallwn groesawu Morgan Joseff Thomas wrth ei enw ac edrych ymlaen at ei ymweliad cyntaf â'r Tabernacl.

Dathlu penblwyddi yn 80 oed
Mae'r Eglwys yn edrych ymlaen at ddathlu penblwyddi rhai o'n haelodau yn 80 oed, sef Margaret Mostyn Jones ac Enid Arfon Jones**.** Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonyn nhw.

Aelod newydd
Yng ngwasanaeth y cymun ddechrau mis Chwefror, cawson y fraint o groesawu Dafydd Williams yn aelod. Bu'n ysgrifennydd ac yn organydd yr eglwys Fedyddiedig ym Mryn-troed-cam, ger Aberafan.

Cymdeithas Nos Fawrth
Cynhaliwyd y Cinio Gŵyl Ddewi blynyddol ar nos Fawrth gynta'r mis. Paratowyd gwledd o safon uchel unwaith eto gan aelodau'r Gymdeithas. Y wraig wadd eleni oedd Helen Jones a chawsom hanes y pethau cynnar a ddylanwadodd ar ei bywyd. Owain Llyr oedd y siaradwr yn ail noson y mis a'i destun oedd 'Seintiau a'r Eglwys Gynnar Geltaidd' a'r neges glir oedd ein bod yn gallu dysgu gymaint oddi wrthyn nhw hyd yn oed yn y ganrif hon.

Cyngerdd Côr Y Tabernacl
Cynhaliwyd Cyngerdd blynyddol y Côr ar 18 Mawrth. Eleni y gwaith a ddewiswyd oedd Requiem Fauré a'r unawdwyr gwadd oedd Rhian Lois a Steffan Jones. Cafwyd eitemau unigol gan y ddau gyda Marged yn cyfeilio i'w brawd ar y soddgrwth. Hefyd mwynhawyd unawd ar yr organ gan Huw Thomas ac eitemau gan y côr. Arweinwyd y Requiem gan Euros Rhys gyda Rob Nicholls ar yr organ - roedd yn noson i'w chofio.

→

Bethel, Rhiwbeina

Cynhaliwyd ein swper Gŵyl Ddewi yn y capel ar 3 Mawrth, gyda'r arlwywraig leol Liz Fouladi yn gofalu am y danteithion. Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Aled Edwards a chafwyd noson hynod o ddifyr yn ei gwmni. Diolch i Mrs Mair Owen am drefnu'r cyfan.

Croesawyd tri dosbarth o Ysgol Melin Gruffydd i'r capel ar 12 Mawrth. Bu'r Gweinidog, y Parchedig T Evan Morgan, yn egluro ei ddyletswyddau ac arwyddocâd y Groglith a'r Pasg a chyflwynodd groes balmwydd ac ŵy Pasg i bob un o'r plant.

Aelodau'r Ysgol Sul fu'n gofalu am oedfa Sul y Blodau. Diolchodd y Gweinidog i'r plant, yr athrawesau a'r rhieni a bendithiodd pob un o'r plant.

Cynrychiolwyd Bethel yn oedfa Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser gan Iola, Pam, Nerys, Rosina a Mair.

Llongyfarchiadau mawr i Ken a Hazel Williams ar ddathlu eu priodas diemwnt, ar 18 Mawrth. Mae'r ddau yn hannu o ardaloedd Cross Hands/Gorslas ac fe'u priodwyd yng nghapel yr Annibynwyr Penygroes, Rhydaman. Dymunir pob hapusrwydd i'r ddau.

Hazel a Ken Williams
yn dathlu priodas diemwnt

Tabernacl (parhad)

Cymdeithas y Chwiorydd
Ar 7 Mawrth dathlodd y chwiorydd Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Myfi Cosslett ddifyrodd y Gymdeithas ganol y mis yn sôn am gerddoriaeth, yna wythnos yn ddiweddarach cynhaliwyd Gwasanaeth y Pasg gyda Chwiorydd Ebeneser yn ymuno â ni.

Medal Gee
Llongyfarchiadau i Mrs Mary Charles, sef mam Huw Charles, ar yr achlysur o dderbyn y fedal hon. Mae'n aelod yn eglwys Bethesda Ponthenri ac yn briod i'r diweddar Barch W J Charles.

Ymddangosiad ar Wedi 3
Bydd selogion Wedi 3 wedi mwynhau gweld Eirwen Davies ar y rhaglen yn ddiweddar. Nid yw wedi colli dim o'r ddawn i gyfathrebu gyda'r camera.

Minny Street, Caerdydd

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Mrs Nansi Williams (Y Mynydd Bychan), un o'n haelodau hynaf oedd â chysylltiadau teuluol yn ymestyn yn ôl i sefydlu'r Eglwys ym Minny Street.

Bedyddio
Cawsom dystio i fedydd Dafydd Wiliam Lewis, mab Manon a Rhys (Aberaeron) ac ŵyr Tegwen a John Albert Evans ar Sul y Blodau.

Y Gymdeithas
Llongyfarchwn Bwyllgor y Gymdeithas am dymor llwyddiannus arall o nosweithiau difyr ac amrywiol. Cawsom ein tywys i Gwmafon a Phorthmadog yng nghwmni Moyra Greaney a Dyfrig Parri ddechrau'r flwyddyn, ac yna ar draws Cymru drwy gyfrwng detholiad o'u lluniau gan Mary Lloyd Jones ym mis Chwefror. Noson 'Pawb yn ei dro' gafwyd yng nghwmni cyfeillion Salem, Treganna a chawsom hwyl yn ceisio bodloni'r beirniaid, Ifan a Margaret Roberts. Cawsom gyfle i werthfawrogi a dysgu am y blaidd a'i gynefin ddechrau mis Mawrth yng nghwmni Cledwyn Fychan a chafwyd Cinio Gŵyl Ddewi llwyddiannus yng Nghlwb Golff Llanisien yng nghwmni Angharad Mair. Daeth y tymor i ben gyda gwledd gerddorol gan Fechgyn Bro Taf.

Cylch Darllen a Thrafod
Dechreuwyd Cylch Darllen a Thrafod ym mis Ionawr i roi cyfle i aelodau ddod at ei gilydd yn fisol i drafod llyfr penodol. Eisoes mae'r Cylch wedi trafod Martha, Jac a Sianco (Caryl Lewis) ac Omlet (Nia Medi).

Salem Treganna

Bedydd
Cawsom dystio i fedydd Llywelyn Brooks, mab Mared a Simon a brawd bach Gwernan ganol y mis. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

Dathlu Gŵyl Ddewi
Cafwyd dathliadau teilwng iawn i ddathlu gŵyl ein nawddsant - cawsom wasanaeth teuluol a gwledd o gawl wedi'r oedfa. Roedd y festri dan ei sang a phawb wedi mwynhau. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gynorthwyodd. Hyfryd oedd gweld y plant yn eu gwisg Gymreig - ymdrech arbennig iawn unwaith eto.
Cafwyd swper Gŵyl Ddewi hefyd yn y Tyllgoed, diolch o galon i John Morgan am ei anerchiad cofiadwy ac i bawb am ddod.

Clwb Brecwast
Cyfarfu'r clwb brecwast yn ystod y mis, ac fe wnaeth Tanni Grey-Thompson alw heibio. Croeso i rieni/gofalwyr a'u babanod/plant bach i ymuno â ni ar fore Mercher, ddwywaith y mis.

Bryn Gobaith

Bydd Glass Shot, cwmni theatr proffesiynol newydd, ar daith drwy Gymru gyda'u cynhyrchiad cyntaf 'Bryn Gobaith' rhwng 23 Ebrill a 10 Mai yn rhan o ŵyl 'Gwanwyn' Age Concern Cymru.

Yr angen am urddas wrth fynd yn hŷn, pwysigrwydd atgofion, a'r berthynas sy'n clymu'r hen a'r ifanc – dyna yn ôl Gruffudd Jones, awdur a chyfarwyddwr 'Bryn Gobaith', oedd hadyn y ddrama. Bydd yr actorion Dora Jones a Dafydd Dafis yn mynd â ni ar daith rymus ac emosiynol ond un sydd â hiwmor a gobaith ynddi hefyd.

Bydd y cwmni yn ymweld â Neuadd Llanofer, Caerdydd ar 6 Mai am 7.30pm. Am docynnau a rhagor o wybodaeth ffoniwch 029 2063 1144.

Ysgol Gyfun Glantaf

Ein taith gyffrous i'r Eidal

Rhai misoedd yn ôl am un ar ddeg o'r gloch nos Sadwrn, fe wnaeth pedwar deg dau o blant cyffrous o Flynyddoedd 8, 9 a 10 yn ogystal â phedwar o athrawon ymgynnull ym maes parcio Ysgol Glantaf. Roeddwn i yn un o'r disgyblion oedd yn aros am y bws.

Ar ôl taith gysglyd i faes awyr Gatwick, fe ddechreuom ar ail ran ein taith. Wrth iddi wawrio gadawsom Llundain a throdd trwyn ein hawyren i gyfeiriad prifddinas arall - Rhufain. Ar ôl tuag awr yn yr awyren, gyda'n clustiau wedi popio o leiaf tair gwaith, fe welsom yr Alpau yn eu mawredd.

Nid yw'n bosib paratoi twristiaid o Brydain ar gyfer hinsawdd y Canoldir. Mae'n sicr i'r aer cynnes ein bwrw ni. Roedd fel camu i mewn i ffwrn. Parhaodd yr haul i wenu arnom drwy gydol ein taith ond heb ein llosgi'n ddidrugaredd.

Ein prif ymweliad yn Rhufain, oedd i'r amffitheatr a adeiladwyd yng nghyfnod yr Ymerawdwr Vespasian. Mae'r Colosseum wedi ei leoli yng nghanol y ddinas ac fe'n syfrdanwyd gan ei faint! Ni all luniau gyfleu maint yr adeilad anhygoel hanesyddol. Hawdd oedd dychmygu'r anturiaethau a'r erchyllterau a gymerodd le o fewn y colofnau oesol.

Os oedd y Colosseum yn hanesyddol ddiddorol, roedd llosgfynydd Vesuvius yn rhyfeddod daearyddol i ni gyd. Efallai fod dringo i fyny'r llethrau serth a llychlyd wedi bod yn ymdrech ond fe'n gwobrwywyd gyda'r olygfa brydferth a bythgofiadwy o Naples o gopa'r mynydd.

Ar ôl ymweld â Vesuvius aethom i weld llosgfynydd cwsg arall sef Solfatara. Yn wahanol i Vesuvius doedd dim angen cerdded yn hir cyn cyrraedd y crater am ei fod ar dir fflat. Y rheswm cai Solfatara ei enw yw am fod Sylffwr yn y crater. Roedd yr arogl yn erchyll ond cawsom brofiad daearyddol gwych yna.

Y diwrnod canlynol aethom i weld dau le a oedd wedi cael ei effeithio gan Vesuvius pan echdorodd yn y flwyddyn 79O.C. Y lle cyntaf aethom i oedd Herculaneum a oedd wedi cael ei orchuddio gan faw. Roedd e'n wych, ond dim ond dechrau'r diwrnod ydoedd. Ar ôl gweld Herculaneum roeddem ni gyd yn gyffrous i ymweld ag un o ryfeddodau'r byd sef Pompeii. Roedd e'n amlwg fod pawb ohonom wedi cael braw ar ba mor fawr oedd Pompeii o'i gymharu â Herculaneum. Roeddem ni gyd wedi blino'n lân ar ddiwedd y dydd am ein bod ni wedi cerdded o gwmpas Pompeii am gyhyd.

Roedd pawb wedi cael wythnos hir a blinedig felly ar y diwrnod olaf aethom ni i ynys Capri ac ymlacio ar y traeth am ran fwyaf o'r dydd yn ogystal â mynd ar gwch o amgylch yr ynys wefreiddiol.

Ar ôl wythnos gyffrous, flinedig ac anhygoel roedd hi'n amser i fynd adref. Gadawon ni o Naples y tro yma a chyrraedd yn Stansted. Cyrhaeddon ni Gaerdydd am bedwar o'r gloch y bore gyda'r tywydd fel gaeaf i gymharu â thywydd crasboeth yr Eidal ond roedd ein rhieni yn llawn bywyd wrth ein croesawu adref i Gymru.

Hywel Davies a Maelor James

Ysgol y Berllan Deg

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd yn hyfryd gweld pawb yn eu gwisgoedd traddodiadol ac mewn crysau rygbi Cymru. Enillydd y gadair am gerdd ar y thema 'Ych a Fi' oedd Bethan Enoch, Blwyddyn 5. Diolch i'r Ffrindiau am ariannu cadair hyfryd a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau i Bronwen, Lydia T, Siôn, Elis J, Connor, Joshua, Megan M a Sophie R o Flwyddyn 5 ar gael eu dewis i ymddangos ar 'Ble mae'r Bwti?' ar Planed Plant ar S4C.

Cawsom lawer o hwyl ar Ddiwrnod y Llyfr gyda phawb wedi dod i'r ysgol yn eu pyjamas! Cafwyd gwledd o weithgareddau, oedd yn cynnwys cystadleuaeth am y pypedau gorau, a bu cyfle i'r plant i sôn am eu hoff lyfr. Ymwelodd dawnswyr o Gernyw â ni a chynnal twmpath dawns. Hefyd fel rhan o'r dathliadau, daeth Catrin Dafydd i gynnal sesiynau diddorol gyda'r plant. Roedd pawb wedi gwirioni gyda Evita o Batagonia!

Perfformiodd Blwyddyn 2 wasanaethau dosbarth lliwgar a byrlymus o flaen yr ysgol a'u rhieni. Thema eu cyflwyniadau fu ymddygiad 'Campus'.

Daeth PC Gwyn i gynnal gweithdai gyda phlant yr Adran Iau oedd yn cynnwys delio gyda dieithriaid, ymddygiad a defnydd o'r we.

Bu llawer o blant yr ysgol yn brysur yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a'r

Bethan Enoch a Mrs Warpole

Eisteddfod Sir. Diolch yn fawr i'r athrawon am eu hyfforddi.

Croeso nôl i Mrs Rhian Llewellyn, Blwyddyn 2 ar ôl cyfnod mamolaeth – mae'n braf eich gweld yn ôl. Diolch yn fawr i Mr Siôn Williams fu gyda ni ers y Nadolig.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Mari Phillips, ein Pennaeth Gweithredol ar gael ei phenodi yn Bennaeth newydd yr ysgol. Mae pawb yn dymuno pob llwyddiant i Miss Phillips i'r dyfodol.

Byw yn yr ardd

Ydych chi'n dipyn o arddwr? Ydych chi'n nabod rhywun sydd angen help i ddechrau garddio? Neu efallai eich bod yn cadw gwenyn neu bethau diddorol eraill yn eich gardd? Boed chi'n arddwr eco o fri, yn tyfu planhigion ar ben to neu mewn gardd fawreddog … neu'n fethiant llwyr yn yr ardd, yna byddai Cwmni Da'n falch o glywed gennych chi.

Mae'r cwmni teledu o Gaernarfon yn paratoi ar gyfer cyfres ysgafn a hwyliog o raglenni o'r enw 'Byw yn yr Ardd'. Bydd y rhaglenni hefyd yn canolbwyntio ar arddio gwyrdd – garddio cynaliadwy ac organig.

Mae'r cwmni yn awyddus i ymweld â gerddi o bob siâp a llun yn ogystal â phrosiectau cymunedol ar draws Cymru gyfan yn y misoedd nesaf. Felly os ydych chi am rannu eich cyfrinachau garddio, eich arbenigedd neu angen cymorth i ddechrau garddio yna cysylltwch yn fuan â Rhian Williams ar RhianWilliams@cwmnida.co.uk, neu 01286 685 300.

Colofn CF1

Bu mis Mawrth yn fis braf i CF1. Ar Fawrth y 1af, fe fuom yn canu yn adeilad y Senedd. Yr oedd yr orymdaith wedi cerdded trwy strydoedd Caerdydd, ac fe gawsom ni eu croesawu i'r adeilad gyda chân neu ddwy!

Yn Eisteddfod Sir yr Urdd cafodd y parti merched y wobr gyntaf a chafodd y parti cerdd dant yr ail wobr. Diolch arbennig i Owain Sion am y gosodiadau! Cafodd nifer o'n haelodau lwyddiannau mewn cystadlaethau unigol hefyd sef:

Unawd offerynnol: 1af - Rhiannon Pritchard – Piano, 2il – Bethan Semmens – Telyn
Unawd Cerdd Dant: 2il - Ellen Angharad
Cyflwyniad Theatrig Unigol: 1af – Elin Leyshon
Unawd Soprano: 1af - Joy Cornock
Unawd Alaw Werin: 1af - Joy Cornock
3awd Cerdd Dant: 2ail - Sara, Ellen a Lowri

Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob hwyl yn Sir Conwy!

Y mae'r paratoadau ar gyfer ein hymweliad â Chicago, Efrog Newydd a Phensylvania hefyd yn mynd rhagddynt, a phawb yn falch o glywed fod Eilir, tra yr oedd yn Efrog Newydd yn ddiweddar, wedi sicrhau dyddiadau ar gyfer cyngherddau ychwanegol ar gyfer ein taith.

Bu Richard Vaughan yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cân i Gymru gyda'i fand Eskimo*, llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu perfformiad, a phob hwyl iddynt gyda'u gigs nesaf!

Yn olaf, mae Rhiannon Davies wedi llwyddo i ennill lle yn rownd derfynol Miss Wales! Llongyfarchiadau mawr iddi, a phob lwc!

Mae'r côr yn cyfarfod am 7.00pm bob nos Lun yn Eglwys Dewi Sant. Croeso mawr i aelodau hen a newydd. Cysylltwch â ni ar aelwydcf1@yahoo.co.uk neu ewch i'n gwefan www.aelwydcf1.com

CROESAIR Rhif 83 gan Rhian Williams



Atebion i: 22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN i gyrraedd erbyn 20 Ebrill 2008.

Ar Draws

1. Agos yw pen Enid i droi at ddiwedd gwell (3,5)
6. '... i'r neb a heuo gyfiawnder, y bydd gwobr ____.' (Diarhebion) (4)
8. Pen teulu yn arddel troad yn llygad y ffynnon (6)
9. A oes hardd olwg i'r llun? (6)
10. Cewri dwad—ai dyma yw'r Tori? (9)
14. 'Mi glywaf dyner lais
    Yn ___ arnaf fi. (J.R.) (4)
15. Afon o graidd amyneddgar (3)
16. Merch a nyth yn Lloegr (4)
17. I arwr chwil daw profwr (9)
20. Daw gôl gyffrous wrth edrych eto (6)
22. 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw
    ___ ___ o'i le, nid ie a nage yw.' (E.J) (2,4)
23. Ar yn ail y cannwyd y cynnyrch (4)
24. Athro drwg yn peri anghytuno (8)

I Lawr

2. A saif o gwmpas yn y lle gwaelod ? (4)
3. Cerfic allan o bren addurniadol (4)
4. 'Mae Duw yn llon pob lle
    _____ ym mhob man.' (D.J) (9)
5. Haint y dicter (3)
6. Sefydlu rywsut yn safle pedoli (8)
7. Gwae crys wedi'i rwygo yn y lle hwn? (8)
11. Gwedd deryn trist ar ddiwrnod y Groglith (3,6)
12. A aned Ceri yma? (8)
13. Galw dwy oriog i ddechrau'r dydd yn watwarus (8)
18. Caffaeliad yw gallu dechrau adrodd seiniau englynion da (4)
19. 'Ond o'r blinderau, blinaf blinder
    Cur annifyr, caru'n ____' (Tradd) (4)
21. 'Rwy'n haeddu ____ y nef
    Ond hedd gyhoedda hi.' (J.C.D) (3)

Atebion Croesair Rhif 82

Ar draws: 1 Pigog. 7 Andwyol. 9 Tafelai. 10 Direswm. 11 Lonydd. 12 Atgyflyru. 16 Adloniant. 20 Ewythr. 21 Greddfol. 24 Awstria. 25 Yn addoli. 26 Nodau.
I Lawr: 1 Poteli. 2 Gofynnol. 3 Gwledda. 4 taid. 5 Nyrs. 6 Clymau. 8 Dirif. 13 Tri. 14 Ynn. 15 Yn hyfryd. 16 Awgrym. 17 Nofio. 18 Teisen. 19 Briallu. 22 Esau. 23 Lais.
Derbyniwyd 19 ymgais a 17 yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Sheila Dafis, Creigiau.

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf ar ran Ysgol Gymraeg Godre'r Andes, Esquel.

Hoffwn ddiolch o galon i deulu y ddiweddar Mari Jones (Gelligrin) am eu rhodd caredig er cof amdani. Yn ôl eu dymuniad mae'r arian wedi'i rannu rhwng y pedair ysgol feithrin yma yn y Wladfa, sef Esquel, Trevelin, Y Gaiman a Threlew.

Yr oedd gan Mari berthynas glos gyda'r Wladfa ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd yn perthyn i William Gerlan Griffiths a Mari Jones Llain Las, Bryncrwyn, ac yr oedd yn derbyn ymwelwyr o'r Wladfa i'w chartref yng Nghymru'n gyson. Byddwn yn gweld ei cholli.

Hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i ymwelwyr o Gymru i alw draw ac ymweld â'n hysgolion i weld drostynt eu hunain y gwaith arbennig mae'r ysgolion hynny yn ei wneud a gwerth rhoddion o'r fath.

Yn gywir
Gill Stephen
Tiwtor/*Profesora*
Ysgol Gymraeg yr Andes/*Centros Galeses de la Cordillera*
Rivadavia 1065. Esquel 9200
Chubut Patagonia

Arloeswraig Nodedig: Dr Ceinwen H. Thomas (1911–2008)

Teyrnged a draddodwyd yn angladd Dr Ceinwen H. Thomas yn Amlosgfa'r Ddraenen, Caerdydd, 7 Chwefror 2008

Anodd dechrau unrhyw deyrnged i Dr Ceinwen Hannah Thomas heb grybwyll y gair 'Nantgarw'. Er iddi fyw yn yr Eglwys Newydd, ac mewn mannau eraill, am ran helaeth o'i bywyd, ni fyddech yn hir yn ei chwmni cyn deall ei bod yn enedigol o Nantgarw a deall hefyd, er bod y pentref hwnnw ond saith milltir i'r gogledd o ganol Caerdydd, mai hi oedd yr ail genhedlaeth yn unig o'i theulu i wybod Saesneg.

Deuai o deulu a'i wreiddiau'n ddwfn yng ngwaelod Cwm Taf, a bu'n byw yn Nantgarw hyd nes iddi gwblhau ei hastudiaethau yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1937. Tra oedd yng Nghaerdydd, enillodd radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg, ac yna mynd ymlaen i ennill gradd MA yn 1936 (a gradd Doethur o Brifysgol Iwerddon, wedyn, yn 1940) – camp addysgol go anghyffredin i wryw yn yr oes honno, heb sôn am fenyw.

Er iddi adael Nantgarw yn 1937, gellir dweud fod ei holl fywyd hir a llawn yn troi o gwmpas Nantgarw a'r Gymraeg. Gyda'i mam, Mrs Margretta Thomas – menyw anghyffredin arall – gwnaeth Dr Ceinwen gyfraniad hynod bwysig yn rhoi ar gof a chadw ddiwylliant gwerin Cymraeg Nantgarw a'r cyffiniau. Un enghraifft yn unig o hynny oedd eu gwaith yn cofnodi Dawnsfeydd Nantgarw, sydd bellach yn rhan mor amlwg o fyd y ddawns werin yng Nghymru. Yn wir, nid gormod fyddai honni fod Dr Ceinwen Thomas a'i mam wedi gosod Nantgarw ar fap ein bywyd diwylliannol, yn un o'r oriel honno o bentrefi – megis Rhydcymerau D. J. Williams neu Lanuwchllyn O. M. Edwards – sydd fel petaent yn ymgorfforiad o'n diwylliant gwerin ar ei orau.

Yn 1993 cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru ei disgrifiad manwl o Gymraeg Nantgarw, mewn dwy gyfrol swmpus. Dyma ei *magnum opus*, penllanw blynyddoedd lawer o astudio seineg a gramadeg y Gymraeg (ac iaith de-ddwyrain Cymru yn arbennig). Yn yr 1960au a'r 1970au bu'n cyfarwyddo'r Uned Ymchwil Ieithyddol a oedd newydd ei sefydlu yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Am fod siaradwyr y Wenhwyseg – Cymraeg de-ddwyrain Cymru – yn prinhau erbyn hynny, rhoddwyd sylw arbennig gan yr Uned i'w hastudio; ac yn ystod cyfnod Dr Ceinwen Thomas yno cafwyd ffrwd o draethodau gan fyfyrwyr ymchwil yr Uned ar Gymraeg gwahanol fannau yn ne-ddwyrain Cymru, sydd yn gyfraniad nodedig i astudiaethau ieithyddol Cymraeg.

Ond ail yrfa i Dr Ceinwen Thomas oedd ei gwaith ieithyddol academaidd. Yn ystod yr ugain mlynedd rhwng gadael Coleg Caerdydd yn 1937 a dychwelyd yno yn 1958, bu'n athrawes Gymraeg ym Mhen-y-cae (*Ebbw Vale*) ac yna ym Mryn-mawr. Ymaelododd â'r Blaid Cymru newydd-ei-sefydlu pan oedd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Caerdydd, a bu'n genedlaetholwraig bybyr ar hyd ei bywyd. Blynyddoedd o frwydro oedd yr 1940au a'r 1950au yn ei hanes: brwydro dros egwyddorion Plaid Cymru; dros ddehongli hanes Cymru mewn ffordd Gymreig yn hytrach nag o safbwynt imperialaidd Seisnig; dros le'r Gymraeg yn myd addysg; a thros gydnabod Sir Fynwy yn rhan lawn o Gymru. Blynyddoedd oedd y rhain o fod ar flaen y gad, mewn cyfnod ac ardal a oedd yn dalcen caled iawn i'r Gymraeg a'r mudiad cenedlaethol – ond bu fyw yn ddigon hir i weld Plaid Cymru yn rhan o'r llywodraeth yn y Cynulliad; to o haneswyr iau yn codi a ddehonglai hanes Cymru mewn ffordd dipyn Gymreiciach; twf aruthrol mewn addysg Gymraeg; a chladdu am byth yr hen ymadrodd hwnnw, 'Wales and Monmouthshire'.

Menyw ddeallus, ddarllengar oedd Ceinwen Thomas. Yr oedd yn fenyw o argyhoeddiadau cryfion, ac yn barod i sefyll yn unplyg dros yr argyhoeddiadau hynny, a dadlau drostynt yn ddi-flewyn-ar-dafod. Un enghraifft fechan o hyn oedd ei hymgyrchu taer dros ddefnyddio hen enwau lleoedd Cymraeg brodorol Cwm Taf, yn hytrach na'r fersiynau Saesneg neu fathiadau Cymraeg gan 'ddynion dŵad': 'Y Mynydd Bychan' (*nid* 'The Heath' neu 'Y Waun'), 'Draenen Pen-y-graig' (*nid* 'Thornhill' neu 'Bryn-drain'), 'Rhiwbina' (*nid* 'Rhiwbeina'), 'Rhydfelen' (*nid* 'Rhydyfelin'). Cefnogai yn hael a chyson yr achosion hynny a oedd yn agos at ei chalon: rhai dyngarol, ecolegol a chenedlaethol. Ac y mae'n werth pwysleisio iddi ddod i'r amlwg yn y bywyd cyhoeddus ac academaidd o'r 1940au ymlaen, pan oedd y cylchoedd hynny yn rhai gwrywaidd i raddau helaeth iawn.

Un wedd ar fywyd Nantgarw ei phlentydod y trodd Dr Ceinwen Thomas ei chefn arni am flynyddoedd oedd byd y 'tŷ cwrdd'. Yn ôl ei thystiolaeth hi ei hun, bu'n bur agnostig yn ei hymateb i Gristnogaeth am gryn amser. Yna, yn fuan ar ôl iddi ymddeol, mentrodd ryw fore Sul i un o oedfaon Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd, a oedd newydd ei ffurfio yr adeg honno. Cafodd ei hatgoffa yng nghyfarfodydd yr Eglwys o awyrgylch cynnes a phwylais diwinyddol y tŷ cwrdd y magwyd hi ynddo yn Nantgarw. Ymhen peth amser wedyn daeth i arddel o'r newydd y ffydd Gristnogol honno. Ni wnaeth hynny mewn ffordd sentimental, ddifeddwl. Nid un felly oedd Dr Ceinwen. Yn hytrach, bu'n pwyso a mesur o ddifrif yr hyn a glywai o'r pulpud, gan ailystyried ei sefyllfa a'i chredo yng ngoleuni hynny. Ond y canlyniad oedd iddi ddychwelyd yn niwedd ei hoes at ffydd ei mam a'i hynafiaid yn Nantgarw.

Yn y cyfnod hwnnw byddai'n mwynhau adrodd rhai o emynau llafar gwlad cyfnod y diwygiadau, y byddai ei hen fam-gu yn hoff o'u canu. Roedd yr hen fam-gu honno, Ann Meredydd – a oedd yn byw mewn bwthyn ar Fynydd Caerffili ger tafarn Clwyd y Gurnos ('The Black Cock Inn') – hithau yn gryn gymeriad, ac yn un na fynnai foesymgrymu i foneddigion yr ardal, yn ôl arfer gwerin y cyfnod. A phriodol yw terfynu'r deyrnged hon i Dr Ceinwen Thomas yn sŵn un o'r penillion hynny, pennill sy'n darlunio'r iachawdwriaeth yng Nghrist ar Galfaria fel llong yn dwyn ei thrysorau i ni. Dyma'r pennill, a'r orgraff yn adlewyrchu ynganiad tafodieithiol Dr Ceinwen ei hun (a'i hen-fam-gu o'i blaen) wrth ei adrodd:

'en lestar iachawdwria'th
A ddæth o'r nef i ni;
Tramwyws fôr o gariad
'yd bartha' Calfari;
Dadlwythws ei thrysora'
Mewn tair awr ar y gro's;
Rhows fodd i rif nas rhifir
I fyw tragwyddol o's.

E. Wyn James

Casglu Platiau

Ydych chi'n casglu platiau'r Eisteddfod Genedlaethol? Oes bwlch yn eich casgliad?

Yn ddiweddar cafodd Pwyllgor Apêl yr Eglwys Newydd rodd o dri phlât o eisteddfod Abertawe 1964, Llambed 1984 ac Abergwaun 1986 i'w gwerthu am y cynnig uchaf er budd y gronfa leol. Mae'n diddorol nodi fod prinder plât Abergwaun ar y pryd a bod plât Abertawe yn uniaith Saesneg.

Os am wneud cynnig am unrhyw blât yna cysylltwch â Siwan yn swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ar 029 2076 3777, drwy e-bost siwan@eisteddfod.org.uk neu drwy lythyr cyn Mehefin 30ain 2008.

Marwolaethau

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Nansi Williams a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar 27 Chwefror. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Minny Street ar 14 Mawrth ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen yn Llanisien.

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth ddisymwth Alun Roberts, Coryton ar 9 Mawrth. Bu'r angladd yng Nhapel Bethesda, Llangennech ar 14 Mawrth. Bu'n ddiacon gweithgar a diflino yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl am dros ddeng mlynedd. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd i Buddug ei wraig, Angharad, Geraint a'r teulu.

Bu farw Lynn Owen-Rees y cyn-newyddiadurwr, awdur a darlledwr yn 71 oed yn Aberystwyth ar 20 Ionawr. Bu'n ohebydd i'r Western Mail yng Ngheredigion cyn dod i fyw i Riwbeina tra roedd e'n gweithio yn Adran y Wasg yn yr hen Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Ef oedd is-olygydd 'Y Faner' pan ddaeth i ben yn Ebrill 1992. Cydymdeimlwm a'i blant a'u teuluoedd.

Ym mis Mawrth bu farw'r cyfansoddwr Alun Hoddinott yn 78 oed. Cafodd yrfa ddisglair a derbyniodd lu o wobrau ac anrhydeddau yn ystod ei oes yn cydnabod ei ddisgleirdeb yn y byd cerddoriaeth. Roedd yn frodor o Fargoed a graddiodd ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu'n darlithio yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd cyn cael ei apwyntio yn ddarlithydd ac yna yn Athro ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu am gyfnod yn byw yn Llysfaen cyn symud i fyw i Fro Gŵyr. Cydymdeimlwn â'i weddw, Rhiannon, a'i fab Ceri.

Meithrinfa ddwyieithog newydd

Bwriad perchennog newydd meithrinfa '3 Bears' yn Hen Laneirwg yw diwallu'r angen am ofal plant proffesiynol a dwyieithog yn nwyrain Caerdydd. Mae'r perchennog wedi bod yn ymwybodol ers peth amser o'r broblem sy'n wynebu rhieni yn y rhan hon o'r ddinas. Drwy gyflwyno mwy o Gymraeg i'r feithrinfa a hybu'r defnydd o'r iaith, y bwriad yw adeiladu ar y safon gofal uchel sydd eisoes yno a denu mwy o blant o Bontprennau, Llaneirwg a'r cyffinau. Mae'r feithrinfa yn cynnig gofal drwy'r dydd, hanner diwrnod, neu sesiynau yn ogystal â gwasanaeth casglu a gollwng.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Lowri Mifsud ar 07790 00 00 84.

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Caerdydd a'r Cylch Awst 2 – 9 2008

Newyddion o Swyddfa'r Eisteddfod

Guto Harri yw Llywydd yr Ŵyl
Bydd dealltwriaeth dinas Caerdydd o'r Gymraeg a phethau Cymreig yn gwella yn sgil rhoi cartref i'r Eisteddfod Genedlaethol, yn ôl Llywydd yr Ŵyl, y darlledwr Guto Harri.

Mae Guto yn credu y bydd gŵyl flaenaf Cymru yn gadael gwaddol parhaol i'r brifddinas. "Dychmygwch Jazz Aberhonddu, Gŵyl y Gelli, Gŵyl Caeredin a Glastonbury i gyd mewn un. Mae hyn yn rhoi syniad o natur yr Eisteddfod. Mae rhywbeth yno at ddant pawb", meddai Guto.

"Hoffwn feddwl y bydd dyfodiad yr Eisteddfod yn gymorth i gadarnhau presenoldeb yr iaith Gymraeg yn y Brifddinas, yn fodd i roi hyder i siaradwyr Cymraeg a thynnu sylw'r di-Gymraeg at y diwylliant o'u cwmpas".

Magwyd Guto yng Nghaerdydd a bu'n ddisgybl yn Ysgol Llanharri. Ar ôl astudio yn Rhydychen, dychwelodd i'r ddinas i astudio newyddiaduriaeth. Aeth wedyn i weithio i'r BBC yn Llundain.

Dywedodd, "Dw i wedi mynychu'r Eisteddfod ers pan o'n i'n fabi mewn pram. Yr unig bryd dw i wedi methu oedd pan o'n i'n gweithio tramor.

"Dwi'n hoffi'r ffaith ei bod yn unigryw. Medrwch gwrdd â ffrindiau a phobl ddieithr, yn ogystal â phrofi diwylliant a hyn i gyd ar yr un maes. Mae popeth yno - boed hynny'n gelfyddyd, cerddoriaeth, chwaraeon neu siopa - mae'n ficrocosm o Gymru."

Cystadlaethau
Erbyn hyn mae dyddiadau cau nifer o gystadlaethau wedi bod a chafwyd ymateb da iawn. Yn yr adran Ddrama derbyniwyd naw ymgais i gyfansoddi drama hir, wyth ymgais i'r ddrama fer a thair yn Ysgoloriaeth Geraint Morris am sgript drama deledu neu ffilm. Yn yr adran Lenyddiaeth daeth pump ymgais i law yng Ngwobr Goffa Daniel Owen a phymtheg ar gyfer y Fedal Ryddiaith. Mae cyfanswm o 435 cais wedi'u derbyn yn yr adran celfyddydau gweledol - mae hyn yn cynnwys 46 ar gyfer Ysgoloriaeth Artist Ifanc sydd yn record ynddi ei hun. Y dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau llwyfan yw **1 Mai.**

Maes D
Bydd llyfryn 'Yr ŵyl yn eich poced' ('A festival in your pocket') yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Ebrill. Canllaw i'r Eisteddfod yw'r llyfryn hwn ar gyfer dysgwyr a'r di-Gymraeg. Bydd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr Eisteddfod, ei phrif atyniadau ac yn cynnwys llawer o eirfa a brawddegau defnyddiol i dywys dysgwyr a'r di-Gymraeg o gwmpas maes yr Eisteddfod. Bydd copïau yn cael eu dosbarthu ar draws Caerdydd i gyd ac mae'n rhad ac am ddim!

Pwyllgorau apêl
Gyda phedwar mis i fynd bydd Ebrill yn gyfnod prysur iawn i'r pwyllgorau apêl. Cofiwch eu cefnogi.

Darlith flynyddol Carnhuanawc

Y Cadeirydd, Keith Bush, gyda Jason Walford Davies

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Dr Jason Walford Davies, Prifysgol Bangor yn narlith flynyddol Carnhuanawc. Gohebiaeth R S Thomas oedd y testun a chafwyd dyfyniadau a sylwadaeth ar y dyfyniadau hynny ganddo. O'r llythyrau fu rhwng y bardd Raymond Garlick ac R S Thomas y daeth y rhan fwyaf o'r dyfyniadau. Di-flewyn ar dafod oedd sawl sylw o'r ddau gyfeiriad. Cafwyd hefyd ddyfyniadau o lythyrau Saunders ac eraill at R S. Bu'r noson yn gyfle i gael cip arall ar gymeriad cymhleth y bardd nodedig hwn.

Ysgol Plasmawr

Eisteddfod Ysgol Plasmawr
Unwaith eto cafwyd Eisteddfod penigamp yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd ym mis Mawrth. Ar y llwyfan yn ystod y dydd gwelwyd amrywiaeth o dalentau ac hyd yn oed perfformiadau cyffrous gan athrawon yng Nghystadleuaeth y Plas Ffactor!

Yn ystod y prynhawn cafwyd seremonïau'r Cadeirio a'r Coroni. 'Cawod' oedd testun y Gadair Iau a'r enillydd oedd Jâms Powys o Flwyddyn 9. Ffion Rhisiart o Flwyddyn 13 oedd enillydd y Gadair Hŷn am ei cherdd 'Damwain'. 'The Haunting' oedd testun y Goron Iau ac fe'i cipiwyd gan Jâms Powys. Wil Lewis o Flwyddyn 12 enillodd y Goron Hŷn ar y testun 'New Life'. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch!

Cystadleuaeth ffilm First Light 2008
Ar y 4ydd o Fawrth aethom ni ac 14 disgybl arall o'r ysgol i Lundain i seremoni wobrwyo First Light 2008. Roedd y gystadleuaeth yn gwobrwyo ffilmiau a grewyd gan bobl oedran 5-18 ar draws Prydain. Ar ôl siwrnai tair awr ar y trên a brysio heibio'r trenau tanddaearol, rhedom ar draws Leicester Square ac i fewn trwy ddrysau gwydr yr Odeon. Roedd y gynulleidfa yn enfawr, ac roedd pawb yn sgrechian! Cyflwynwraig y seremoni oedd Davina McCall, a rhai o'r enwogion oedd yn beirniadu neu yn cyflwyno'r gwobrau oedd Orlando Bloom, Stephen Fry, Kevin Spacey, Ian McKellen, Lizo Mzimba ac Alan Rickman. Roedd ein ffilm ni, sef 'The Stute', wedi cael ei nomineiddio am y ffilm orau gan blant dros 13. O'r diwedd, daeth ein cystadleuaeth ni. Daeth Kevin Spacey i'r llwyfan i gyflwyno'r wobr. Ar ôl gweld y nomineiddiadau eraill roedd hi'n amser. Roedd calon pawb yn curo yn gyflymach nag erioed. "And the winner is……THE STUTE!!!". Wedyn digwyddodd popeth yn gyflym. Aethom ni at y llwyfan ac ar ôl derbyn y wobr gan Kevin Spacey a Davina McCall, roedd yn rhaid i ni fynd i gefn y llwyfan. Yno roedd carped coch ac roedd pawb yn gweiddi arnoch i edrych atyn nhw er mwyn cael llun. Yn syth wedyn cafon ni gyfweliadau a lluniau gyda S4C, ITV, Yr Echo a llawer mwy, cyn mynd i'r clwb nos 'Sound' i'r parti gyda'r enwogion. Ychydig oriau yn ddiweddarach roedd hi'n amser mynd adref. Roedd y profiad wedi bod yn wych ac wedi dod i ben… tan y flwyddyn nesaf!

Geraint Ballinger a Caio Redknap, Blwyddyn 9

Llwyddiant Ysgol Albert

Bu Ysgol Albert, Penarth yn llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Bydd y grŵp dawns yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Dir Conwy ar y Ddawns Greadigol i Flwyddyn 6 ac iau, gyda dawns ar y thema *Glan y Môr*. Daeth yr un grŵp yn ail yn y gystadleuaeth Dawns Cyfrwng Cymysg i Flwyddyn 6 ac iau.

Hefyd enillwyd gwobrau cyntaf ac ail yn y gystadleuaeth Adrodd i Ddysgwyr Blwyddyn 2 ac iau gan Niamh Sullivan a gan Freya Hall, ac yn y gystadleuaeth Adrodd i Ddysgwyr Blwyddyn 3 a 4 gan Clara Hall a Stuart Bird. Bydd Niamh a Clara yn ymuno â'r grŵp dawns yng Nghonwy.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r plant a'u rhieni am eu hymroddiad a gwaith caled hyd yn hyn, gan gynnwys ar ôl ysgol ac ar ddydd Sadwrn! Hoffem hefyd ddiolch i'r bardd Grahame Davies am ei waith a'i ymroddiad ef.

Tîm pêl-droed Dinas Caerdydd
Llongyfarchiadau i Ben Coles o Flwyddyn 9 am gael ei ddewis i fod yn aelod o dîm pêl-droed Dinas Caerdydd. Pob hwyl i ti Ben!

Ysgoloriaethau
Llongyfarchiadau i Owain Thomas, Ffion Rhisiart, Emyr John ac Eleri Jones o Flwyddyn 13 am ennill ysgoloriaethau i Brifysgol Cymru Aberystwyth.
Llwyddodd Ffion i ennill Ysgoloriaeth Cymraeg a Cherdd ac Ysgoloriaeth Perfformio i Brifysgol Cymru Bangor yn ogystal.

Sioe gerdd Joseff
Mae dyddiad y cynhyrchiad wedi newid i 30 Mehefin,1 a 2 Gorffennaf.

Merched y Wawr Bro Radur

Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod mis Mawrth. Mae'r aelodaeth yn dal i gynyddu o fis i fis, a sawl un wedi symud i'r brifddinas er mwyn bod yn agos at eu plant a'u hwyrion.

Dyma'r rheswm i'r gŵr gwadd, Gwynn Mathews a'i wriag Mair adael Dyffryn Clwyd a mudo i Gaerdydd yn ddiweddar. Cyflwynwyd ef gan Catrin Roberts, sy'n perthyn iddo trwy briodas. Bu Gwynn yn gweithio gyda Mudiad Addysg y Gweithwyr am flynyddoedd. Testun ei sgwrs oedd 'Hen Straeon Newydd', a dangosodd i ni nad yw 'spin' ym maes gwleidyddiaeth yn beth newydd o gwbl. Roedd ei wybodaeth o'r ffynnonellau hanesyddol yn drylwyr, ond roedd e'n ymdrin â nhw mewn ffordd ddifyr, llawn hiwmor. Cawsom noson arbennig yn ei gwmni.

Cafwyd casgliad ar gyfer Hosbis George Thomas yn yr Eglwys Newydd ar ddiwedd y noson pan godwyd £75.

Dau gyngerdd - yr un noson a'r un lle!

Trefnwyd cyngherddau gan ysgolion Rhiwbeina, Llanisien a'r Eglwys Newydd yn Ysgol Uwchradd Llanisien ar 13 Mawrth i godi arian tuag at Apêl yr Eisteddfod. Cafwyd saith ysgol i gymryd rhan: ysgolion cynradd Coed Glas, Llanisien Fach, Rhiwbeina a'r Wern ac ysgolion uwchradd Glantaf, Llanisien a'r Eglwys Newydd. Arweinwyd y cyngerdd cyntaf gan y darlledwr adnabyddus Jason Mohammad a'r ail gyngerdd gan Falmai Griffiths, oedd hefyd yn gyfrifol am gydlynu'r cyfan. Mae Jason Mohammad yn gyn ddisgybl i Falmai yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw yn Nhrelai cyn mynd yn ei flaen i astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Daeth cannoedd i gefnogi'r plant a chafwyd eitemau o safon uchel. Cafwyd elw sylweddol tuag at gronfa'r Eisteddfod.

Canmoliaeth i Ysgol Llanisien Fach

Cafwyd canmoliaeth i Ysgol Llanisien Fach, Rhiwbeina, gan Arolygwyr ei Mawrhydi am ei chefnogaeth i'r iaith Gymraeg yn y gwersi ail iaith a gyflwynir i'r disgyblion. Ar ben hynny roedd yr ysgol yn dangos ethos Gymreig cryf yn ôl yr Arolygwyr ac agwedd y plant yn gadarnhaol tuag at yr iaith.

YSGOL PWLL COCH

Steddfod Sir yr Urdd
Roedd cystadlu brwd yn y 'Steddfod Sir yn enwedig gan fod y buddugol yn mynd i'r 'Steddfod Genedlaethol yng Nghonwy yn mis Mai. Rydym yn falch o gyhoeddi fod sawl disgybl o Bwll Coch ar eu ffordd i'r Genedlaethol. Daeth Grace Bowen yn gyntaf yn yr unawd chwythbrennau, Mia Morgan yn gyntaf yn y llefaru dan 8 ac Alaw Davies yn gyntaf yn yr unawd dan 12 a'r unawd werin. Ardderchog wir. Daeth y parti chwybrennau (Grace Bowen, Lleucu Parri a Ffion Roblin) yn ail, ac ail hefyd oedd y parti ymgom. Daeth Ffion Roblin (llefaru dan 12) ac Arwel Jenkins (unawd dan 8) yn drydydd. Ymdrech ardderchog gan bawb. Hoffwn ddiolch i'r staff a fynychodd y 'Steddfod ac am ddysgu'r plant mor dda.

Steddfod celf
Cafwyd nifer fawr o lwyddiannau yn y 'Steddfod Celf a Chrefft eto eleni. Yn fuddugol roedd Deio Hughes (graffeg cyfrifiadurol), Megan Hambler (pypedau), Cassi Anderson (arddurno ar ffabrig), Robert Tann (tecstilau 2-D), Ella Braun (tecstilau 3-D), Erin Williams (tecstilau 3-D) ac Ani Collier (gwau). Bydd eu gwaith yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn ail roedd Lauren McGree (graffeg cyfrifiadurol a llun 2-D), Rhys Edwards (arddurno ar ffabrig) ac Erin Williams (tecstilau 3-D). Cafodd Mari Jones (llun 2-D), Johnny Tann (tecstilau 2-D), Celyn Williams (tecstilau 3-D), Catrin Lord (llun 2-D), Grace Hubbard-Smith (graffeg cyfrifiadurol), Osian Roberts (print du a gwyn), Alys Bevan a Rhiannon Blythe (tecstilau 3-D cywaith) yn drydydd. Cynhaliwyd noson wobrywo yn neuadd yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a diolch i bawb a gymerodd ran.

Felly am lwyddiant ysgubol i'r ysgol - 4 eitem llwyfan a 7 eitem gelf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd .

Newyddion
Cynhaliwyd 'Wythnos Masnach Deg' yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd y plant amrywiaeth o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnyrch Masnach Deg. Roedd 'siop' masnach deg yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a bu llawer o goginio gan ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg.

Hefyd yn ystod yr wythnos cynhaliodd y staff fore coffi Masnach Deg yn yr ystafell athrawon gan godi dros £68 ar gyfer 'Action Aid'.

Cymerodd aelodau'r clwb Celf ran mewn cystadleuaeth genedlaethol i ddylunio poster er mwyn hyrwyddo siopau bach lleol. Un o ennillwyr y gystadleuaeth oedd Ffion Butler-Rees (bl.6) gyda'i dyluniad o 'Siani'r Siopwraig' gan ennill £50 i'r ysgol a £30 iddi ei hun. Mae siop 'Pontcanna Stores' wedi elwa hefyd.

Hefyd bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth creu bwydlen iachus ar gyfer penwythnos o wyliau. Roedd cyfle i'r plant ennill peiriant 'smoothie'. Cafwyd ymateb ardderchog a'r enillydd oedd Rhiannon Blythe. Yn ail oedd Jac Ifan Edwards ac yn drydydd oedd Evan Musgrave. Hoffwn ddiolch i Miss Griffiths, Mrs Williams (mam Erin a Celyn) am ei syniadau. Hoffwn ddiolch yn fawr i Sommerfield, Treganna a Siop Ffrwythau Young's, Trefaerdy am y gwobrau.

Cyfeillion
Cawsom noson hyfryd o adloniant yn neuadd yr ysgol ar nos Wener y 29ain o Chwefror. Cymerodd y disgyblion ran trwy ganu neu lefaru y darnau yr oeddynt wedi eu dysgu ar gyfer yr Eisteddfod. Hefyd roedd Twmpath o dan arweiniad Alun Owens o'r Urdd. Cafodd bawb gawl blasus hefyd. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson ac i'r Cyfeillion am eu gwaith caled. Codwyd £389 ar y noson.

Newyddion staff
Hoffwn groesawu Mrs Katie Morgan yn ôl. Bu Mrs Morgan ar gyfnod mamolaeth ac mae yn grêt ei chael hi yn ôl yma ym Mhwll Coch.

Bwrlwm Bro Eirwg

Rwmania
Bu plant yr ysgol yn casglu wyau Pasg yn ddiweddar i'w danfon i blant yn Rwmania. Yn ôl eu harfer roedd y plant yn frwdfrydig iawn ac fe gasglwyd sawl bocs yn llawn o wyau bach a mawr. Derbyniwyd yr wyau gan Gwen Emyr ac Alan Penrose yn ystod ymweliad â'r ysgol a chawsom glywed ganddynt am fywydau plant a'u teuluoedd yn Rwmania. Bydd y wyau yn cyrraedd Rwmania ar lorïau mawr mewn da bryd ar gyfer y Pasg.

Clwb Eco
Mae aelodau Clwb Eco yr ysgol yn awyddus iawn i sefydlu perthynas â gwlad arall. Syniad y plant oedd i wahodd Mr Gwyn Angell Jones yn ôl i'r ysgol i siarad â ni gan fod pawb wedi mwynhau cymaint pan ddaeth y tro diwethaf i sôn am sefydlu ysbyty newydd yn yr India. Daeth Mr Jones â nifer fawr o bethau diddorol i'w dangos – yn enwedig troed eliffant!

Dosbarth Derwen
Braf iawn oedd cael cyfle i groesawu plant dosbarth Derwen a'u hathrawes, Miss Rhian Jones, a'r weinyddes dosbarth Mrs Chris Payne, i ymuno â ni yn ein Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi. Mwynheuodd y plant gymysgu â'i gilydd ac fe berfformiodd plant y Dderwen medli hyfryd o ganeuon.

Gwobrau Gŵyl Heddwch
Unwaith eto eleni enillodd plant yr ysgol nifer o wobrau yn y gystadleuaeth hon. Mwynheuodd y plant gyfansoddi barddoniaeth a dylunio posteri ar y thema, 'Edrychwch Arna I, Gwrandewch Arna I' . Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Cystadleuaeth Celf yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i 'Grŵp Elle' - Elle, Alex, Scott a James ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth gwaith grŵp 3D i Flynyddoedd 5 a 6.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol ar ennill cystadleuaeth ysgolion Caerdydd yn ddiweddar. Yn y rowndiau terfynol cafwyd gêm gyfartal gyda Cwrt yr Ala cyn curo Rhiwbeina ac Ysgol Llandaf i gipio'r gwpan. Yn dilyn y llwyddiant bydd cyfle gan y tîm i gynrychioli Caerdydd yn rowndiau terfynol ysgolion Cymru yng Nghlwb Rygbi'r Dyfnant dros wyliau'r Pasg.

Gemau Olympaidd
Yn ddiweddar cafodd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gyfle i fynychu 'Gemau Olympaidd' yn Athrofa Prifysgol Cymru yng Nghyncoed. Roedd y profiad yn un cofiadwy i bawb a chafodd y disgyblion gyfle i brofi gweithgareddau athletau amrywiol - o'r naid uchel i rasio dros y clwydi. Diolch i'r Athrofa am drefnu diwrnod llawn hwyl.

Staff
Ar ddiwedd tymor y Pasg bu'n rhaid ffarwelio â Mrs Jan Palit sydd wedi bod yn aelod o staff yr ysgol am 18 o flynyddoedd! Dymunwn pob lwc a llwyddiant iddi yn ei swydd newydd gyda ESIS.

Calendr y Dinesydd

Llun, 7 Ebrill
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Gwenno Dafydd. Manylion pellach gan Tony Couch (2075 3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

Mawrth, 8 Ebrill
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Parch. Cynwil Williams yn siarad am 'Gyfeillion Dylanwadol' am 7.30pm.

Sadwrn, 12 Ebrill
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gobaith a'r Angor' gan Dylan Rees yn Neuadd Llanofer, Treganna, Caerdydd. Tocynnau: 029-2063-1144 neu 01286-676335.

Mawrth, 15 Ebrill
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd: Cyngerdd gan Gôr Cantemus am 7.30pm.

Gwener, 18 Ebrill
Cinio Mawreddog yng nghwmni Max Boyce, yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd am 8.00pm. Tocynnau: £30.00 yn cynnwys bwyd (3 cwrs). Noson ddwyieithiog (gwisg smart). Trefnir gan Bwyllgor Apêl yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf ac ardal Mynydd Bychan, Llwynfedw, Gabalfa, Cathays a Parc y Rhath yr Eisteddfod. Manylion pellach: 029-2056-5658;

Gwener, 18 Ebrill
Noson Rasio Ceffylau yn y Duke of Clarence, Treganna am 7.30pm yng nghwmni Gareth Roberts. Am fwy o wybodaeth e-bost: apel.eisteddfod@btinternet.com

Sadwrn, 19 Ebrill
Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Sadwrn, 19 Ebrill
Noson yng nghwmni 'Ar Lôg' yng Nghlwb Trydan, Pontcanna. Trefnwyd gan Bwyllgor Apêl Llys-faen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*) a Rhydri Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Sadwrn, 19 Ebrill
Côr Philharmonig Caerdydd. Cyngerdd yn cynnwys yr Offeren yn C gan Beethoven, yn Neuadd Gerdd y Brifysgol, Heol Corbett, am 7.30pm. Arweinydd: Alun Guy. Organydd: Robert Nicholls. Unawdwyr: Rhian Owen, Kate Woolveridge, Aled Wyn Davies a Tom Evans. Tocynnau: £7. Manylion pellach: 029-2062-6779.

Llun, 21 Ebrill
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. 'Pawb a'i Farn', yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Mercher, 23 Ebrill
Darlith gan yr Athro Hywel Teifi Edwards ar y testun 'Eos Morlais a'r Hen Denoriaid Cymreig' yn Neuadd Oakdale, Amgueddfa Sain Ffagan am 7.15pm. Tocynnau £7. Fe'i trefnir gan Bwyllgor Apêl Croes Cwrlwys Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Iau, 24 Ebrill
Coffáu Hil-laddiad yr Asyriaid a'r Armeniaid, am 5.15pm ger Maen Coffa Hil-laddiad 1915 yn ardd gefn y Deml Heddwch, Parc Cathays, yn cael ei ddilyn gan ddarlith ar 'Hil-laddiad yr Asyriaid 1915' gan Sabri Atman, Amsterdam (Cyfarwyddwr Canolfan Seyfo) yn y Deml Heddwch am 5.30pm. Fe'i trefnir gan Cymdeithas Cyfeillgarwch Cymru-Armenia. Manylion pellach: 07718-982732; eilian@nant.wanadoo.co.uk.

Gwener, 26 Ebrill
Cymdeithas Eglwys y Crwys. Noson yng nghwmni Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd, am 7.30pm. Tocynnau: £5.

Mawrth, 29 Ebrill
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro Glyn E. Jones ar y testun 'Golwg ar rai ffiniau tafodieithol ym Mrycheiniog'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Mawrth, 29 Ebrill
Agoriad Arddangosfa Gelf ym Mwyty y Thai House, Guilford Crescent. Noddwyd y noson hon gan Arlene and Noi Ramasut. Tocynnau: apel.eisteddfod@btinternet.com

Iau, 8 Mai
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol dan arweiniad y Parch. Glyn Tudwal Jones yng Nghapel y Crwys am 7.30pm.

Gwener, 9 Mai
Cylch Cadwgan. Y Prifeirdd Aled Gwyn a T. James Jones yn siarad ar y testun 'Llwybrau Nest' yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Gwener, 9 Mai
Cyngerdd yng nghwmni Côr Poliffonig Caerdydd ac Elinor Bennett yn Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, Caerdydd, er budd Gofal Canser Cymru.Yn ystod ail hanner y cyngerdd bydd y côr yn perfformio Requiem Faure.

Sadwrn, 17 Mai
Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan John Emyr am 11.00. Croeso cynnes i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Llun, 19 Mai
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, yng nghapel Bethel am 7.30pm. Tâl mynediad £5.

Llun, 19 Mai
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Y fraich ddrewllyd a chlefydau anghyffredin eraill' gan Meirion Llewelyn (Ysbyty Brenhinol Gwent). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).